

ECO'R WYDDFA

Rhif 108

TACHWEDD 1985

Pris 20c

HAELIONI PWYLLGOR



Mewn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis, nos Iau Hydref 24, cyflwynwyd gweddill yr arian a gasglwyd gogyfer â'r cae chwarae 'Parc Bach' wrth Dôl Elidir, i Theatr Fach Gorffwysfa a thîm pêl-droed dan 15 oed, 'Colts' Llanberis.

Derbyniodd Mr Twm John Roberts £111.73 ar ran y 'Colts', a Marion Davies, Ann Parry-Jones a Jane Roberts £500 ar ran Theatr Fach Gorffwysfa.

Llun: rhes gefn, Meurig Evans (trysorydd), Twm John Roberts (gyda'r siec); rhes flaen, Joyce Jones, Eileen Roberts, Gloria Pitts, Ann Parry-Jones, Jane Roberts. Nid oedd Marion Davies a Margaret Griffiths yn bresennol pan dynnwyd y llun.

Dymuna'r cwmni drama ddiolch i Bwyllgor y Cae Chwarae am eu

rhodd. Yn awr gallant gwblhau talu am yr adeilad. Gyda chymorth y rhodd yma, rhoddion eraill a chefnogaeth pobl o bell ac agos, mae'r cwmni wedi llwyddo i glirio'r ddyled o fewn blwyddyn a hanner. Mae cynlluniau ar droed i addasu'r adeilad a gobeithir y gellir mynd ymlaen â'r gwaith yn y dyfodol agos. Bydd y gost yma yn drwm iawn ar y cwmni a hyderant unwaith eto am gefnogaeth pobl y fro. Dymuna pwyllgor tîm 'Colts Llanberis' hefyd ddiolch i Bwyllgor Parc Bach am y rhodd haelionus i gronfa'r Clwb.

EFFEITHIAU ANGHYDFOD YR ATHRAWON AR YR-URDD

Ers dechrau Medi daeth yn fwy amlwg fod yr anghydfod rhwng yr athrawon a'r cyflogwr yn effeithio ar weithgareddau'r Urdd gan fod y mudiad yn dibynnu ar gefnogaeth gwirfoddol athrawon i gynnal ei gweithgareddau o fewn ysgolion. Y cam cyntaf cenedlaethol oedd diddymu Pinacl '85 a oedd i'w gynnal yng Nghaerfyrddin yn Nhachwedd.

Mae'r Urdd eisoes yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ariannol caeth iawn, a phe byddai'r anghydfod yma yn mynd ymlaen am rai misoedd eto, yna fe geid sefyllfa ariannol a'i gwnâi'n anodd i'r mudiad barhau i weithredu ar yr un lefel ag a wneir heddiw.

Mae'n dod yn amlwg fod y gweithredu yn effeithio ar rai o brif ffynonellau ariannol y mudiad:

1. Cofrestru

Mae aelodaeth yr Urdd yn 50,000. Eleni gyda'r tâl aelodaeth yn £1 gobeithid cael incwm o £50,000 o gofrestru. Os na ddigwydd cofrestru yn yr ysgolion gall effeithio ar holl weithgareddau'r Urdd.

2. Cynlluniau codi arian

Mae aelodau'r Urdd trwy gynlluniau £1 y Pen a dyddiau baneri yn codi tua £25,000 y flwyddyn. Heb aelodau cofrestredig mae'r cynlluniau hyn yn peidio.

3. Gwersylloedd

Eisoes diddymwyd nifer helaeth o gyrsgiau yn y ddau wersyll o hyn i'r Nadolig. Dau gws yn unig sydd ar ôl yn Llangrannog. Ar gyfartaledd daw y gwersylloedd ag incwm o £8500 yr wythnos drwy'r flwyddyn. Dyna golled o £110,000 o hyn i'r Nadolig. Os pery'r anghydfod hyd y gwersylloedd haf gall y golled yma fod yn waeth eto. Lluosoger £8500 gyda nifer yr wythnosau.

4. Eisteddfod

Mae'r Urdd wedi penderfynu y bydd Eisteddfod Genedlaethol yn Nyffryn Ogwen ac mae cronfa eisoes mewn llaw. Ar hyn o bryd fodd bynnag ni wyddom beth fydd y sefyllfa cystadlu ar raddfa Cylch a

Sir a sut fath o Eisteddfod a gynhelir. Bob blwyddyn mae gweddill ariannol yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa ganolog. Gall y swm yma fod yn llai eleni neu hyd yn oed droi yn golled.

5. Taliadau

Trwy dorri ar gyflogau, costau a gwariant arall fe wnaed arbedion o £88,000 yn amcangyfrifon gwariant hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eto i gyd tra pery'r anghydfod heb dderbyniadau o'r gwersylloedd a'r ffynonellau eraill sy'n gyfrifol am 65 y cant o'n hincwm gall y golled ariannol fod yn £150,000 neu ragor erbyn diwedd Mawrth.

6. Grantiau

Y mae'r Urdd yn derbyn grantiau blynyddol gan y Swyddfa Gymreig a Chynghorau Sir Gwynedd, Clwyd, Dyfed, Powys, Gorllewin Morgannwg a De Morgannwg. Eto i gyd dim ond 15 y cant o'r costau blynyddol yw hyn. Rhaid i'r mudiad godi'r gweddill ei hunan.

7. Codi Arian

Tra mae rhai canghennau, cylchoedd a siroedd yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldeb i gynnal y mudiad ac yn ymateb i apelïadau, trwy ffurfio paneli ariannol, trefnu grwpiau i gynnal dyddiau baneri a threfnu ymgyrchoedd arbennig mae eraill yn gwbl ddihidio.

Pe byddai pob sir yn ymdrechu i gynnal ei threfniadaeth ei hunan yn ariannol byddai o gymorth mawr. Mae profiad yn dangos fod llwyddiant pob ymdrech ariannol i sicrhau nawdd neu gymorth gan lywodraeth ganolog, diwydiant neu ymddiriedolaethau yn llwyddo os yw wedi ei gyfeirioat broiect pendant lle y gall y corff hwnnw uniaethu'r nawdd ag ef. Mae'n llawer mwy anodd sicrhau cymorth i waith gweinyddol bob dydd. Rhaid i'r dull o godi arian wedyn fod yn gyfraniad gwirfoddol neu yn cynnig rhywbeth i'r cyfrannwr.

O safbwynt yr Urdd, mae'n sicr fod effeithiau pellgyrhaeddol i'r anghydfod.

DYRCHAFIAD SEINDORF

Gwireddwyd breuddwyd pob chwaraewr offeryn pres gan aelodau Seindorf Arian Llanrug, ddydd Sadwrn, Hydref 5, sef cystadlu ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gwledydd Prydain yn neuadd Albert yn Llundain.

Wedi derbyn clod uchel y beirniad, a chipio'r wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth ragarweiniol yn Preston ym mis Mawrth, aethpwyd ati gydag arddeliad i baratoi yn gerddorol ac ariannol at y cyfle unigryw hwn. Sicrhawyd lifrai newydd (gweler y llun) yn ogystal â chasglu swm sylweddol i dalu am y penwythnos. Roedd hufen pedwaredd adran y Bandiau Pres yn cystadlu ac allan o'r 188 gwreiddiol, a chyda pherfformiad caboledig dros ben sicrhawyd y bumed safle. Derbyniwyd canmolïaeth ar ddehongliad y Seindorf o'r darn prawf - y 'Saddleworth Festival'



gan y beirniad, Goff Richards (cyfansoddwr y darn) ac Albert Chappell.

Roedd hwn y diwedd glo haeddiannol i bresenoldeb y Seindorf yn y bedwaredd adran

oherwydd ym mis Ionawr byddant yn derbyn dyrchafiad (parhad ar y dudalen gefn)

ECO'R WYDDFA

**RHIF 108
TACHWEDD 1985**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23

Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd

Whiteside Tomas, Bron y Nant,

Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:

Amranwen Lynch, Gwyddfôr,

Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,

Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane

Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,

Ffordd Capel Coch, Llanberis.

(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,

60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).

Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,

Llanrug (C'fon 77163).

TREFNYDD HYSBYSEBION: John

Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug

(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn

Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,

Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy

Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,

Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,

Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl

i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran

(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa

(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,

(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,

Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd

fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro

Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt

Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,

Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,

Annedd Wen, Tal-y-bont.

(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8

Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis

870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9

Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan

Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed

(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir

Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21

Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
TACHWEDD 30

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH
TACHWEDD 22**
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

PWYSO AM DDEDDF IAITH

Annwyl gyd-Gymry,

*Hoffwn dynnu sylw pobl
Cymru at benderfyniadau a
basiwyd yng Nghyfarfod
Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg ar Hydref 11eg a'r
12ed.*

*Y teimlad yn y Cyfarfod
Cyffredinol oedd fod y Comisiwn
Cydraddoldeb Hiliol wedi cael ei
gamddefnyddio gan bobl
wrth-Gymreig ac yn gresynu fod
y Comisiwn a'r Tribiwn lys
Diwydiannol a gynhaliwyd yn
Mae Colwyn wedi cefnogi cais
sy'n golygu bellach nad oes gan
yr iaith Gymraeg statws
cyfreithiol gwerth sôn amdano.*

*Golyga'r penderfyniad nad oes
gan siaradwyr Cymraeg unrhyw
hawliau ac mai dinasyddion
difreintiedig ydynt yn eu gwlad
eu hunain. Pwysleisiwyd
unwaith eto mai pwrpas
sylfaenol Cymdeithas yr Iaith yw
"sicrhau dyfodol a hawliau ein
pobl" a thyngedwyd i ymgychu
yn ddi-baid i sicrhau statws llawn
a chyfreithiol i'r iaith Gymraeg."*

*Byddwn felly yn parhau i
bwyso am Ddeddf Iaith
gynhwysfawr "er mwyn sicrhau
y bydd hawliau'r Cymry
Cymraeg yn cael eu diogelu yn y
dyfodol."*

*Mae Cymdeithas yr Iaith ar hyn
o bryd yn paratoi deddf o'r fath ac
fe drafodwyd y drafft cyntaf
ohoni yn y Cyfarfod Cyffredinol
eleni.*

*Yn ychwanegol at hyn cadwyd
mewn cof eiriau'r Comisiwn
Cydraddoldeb Hiliol ei fod yn
barod i ymladd dros hawliau'r
Cymry Cymraeg hefyd. Felly os
gwyddoch chi am enghreifftiau o
ragfarn yn erbyn siaradwyr
Cymraeg gwahoddwn chi i anfon
y dystiolaeth atom fel y gallwn ei
gyflwyno i'r Comisiwn
Cydraddoldeb Hiliol. Anfoner
pob gohebiaeth ataf fi.*

*Dafydd Morgan Lewis
d.o. Swyddfa Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg*

5 Maes Albert

Aberystwyth

Dyfed

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd Morgan Lewis

(Arweinydd Grŵp Statws

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)

32, Heol y Wig,

Aberystwyth.

CÂN I GYMRU

*Mae BBC Cymru yn chwilio am
'Gân i Gymru' ar gyfer 1986.
Cynigir gwobr o £500 gyda'r
caneuon gorau yn cael eu perfformio
mewn rhaglen deledu a welir ar S4C
ac a ddarlledir ar Radio Cymru o
gwmpas Dydd Gŵyl Ddewi.*

*Gofynnir am eiriau ac alaw
wreiddiol - heb eu cyhoeddi na'u
perfformio o'r blaen. Gallant fod o
waith unigolyn neu'n gywaith, a
bydd yn rhaid i'r cyfansoddiadau
fod mewn llaw erbyn Ionawr 17, ar
ffurf caset.*

*Dylid anfon y ceisiadau, (neu
geisiadau am wybodaeth bellach) at:
Cân i Gymru 1986, BBC, Llandaf,*

Caerdydd CF5 2YQ.

OES GAN RHYWUN STORI-DRAMP?

Annwyl Olygydd,

*Yn ddiweddar roeddwn i'n
sgwrsio gyda chyfaill o ffermwr
ac mi ddywedodd o rai straeon
digri wrthyf am dramps.*

*Yn yr hen ddyddiau roedd
tramps yn cael eu croesawu gan
ffermwyr ac arferai rhai wneud
diwrnod o waith iddynt yn
gyfnewid am noson o orffwys yn
y sied wair neu'r llofft stabal.*

*O glywed y straeon hyn, ac
wedi sgwrsio â nifer o bobl eraill
ers hynny, mae fy nghasgliad o
straeon tramps wedi cynyddu'n
sylweddol ac mae'n fwriad
gennyf eu crynhoi mewn cyfrol a
gyhoeddir gan Wasg Carreg
Gwalch y flwyddyn nesaf.*

*Tybed, felly, a gaf apelio ar eich
darllenwyr i yrru eu straeon digri
am eu profiadau wrth ymwneud
â thramps ataf i'r cyfeiriad isod?*

*Os yw'r darlennydd yn ifanc
iawn, diau y buasai'n talu iddo
holi ei nain neu ei daid - byddent
hwy yn siŵr o fedru dwyn llawer
o'r straeon difyr hyn i gof.*

Yn gywir,

Russell Davies,

d.o. Gwasg Carreg Gwalch,

Capel Garmon,

Llanrwst.

Ffôn: 06902261

CYFLE I HELPU ERAILL

*A ydych yn chwilio am waith
gwirfoddol sy'n sialens, yn
ddiddorol ac yn amrywiol?*

*A oes gennych o leiaf bedair awr
yr wythnos i sbario? A ydych yn
mwynhau helpu pobl mewn ffordd
ymarferol, ac yn fodlon cael eich
hyfforddi i wneud hynny?*

*Beth am gysylltu â'ch Canolfan
Cynghori (Citizens' Advice Bureau)
agosaf? Mae angen arbennig yn yr
ardal yma am Gymry Cymraeg.
Bydd y Trefnydd yn falch o roi mwy
o fanylion i unrhyw un sydd â
diddordeb yn y gwaith yma.*

*Dyma'r cyfeiriad: Mrs Ann
Griffiths, (Trefnydd), 41 Stryd
Llyn, Caernarfon. Ffôn: 5246 (ffôn
gartref): Llanwnda 830428.*

Oriau agor: Llun, Mawrth,

**Mercher 1-3pm, Gwener
11am-3pm; Sadwrn 10-12am.**

CYFLE I WIRFODDOLI YNG NGHYMRU

*Prif ddiben y gronfa yw hybu
cynulliau gwirfoddol ym meysydd
iechyd, gwaith cymdeithasol,
addysg cymuned a datblygiadau
cymunedol ynghyd â chefnogi
gweithgareddau gwirfoddol yn
cynnwys rhai yr ymgymerir â hwy
gan bobl ddi-waith.*

*Dylai cynlluniau fod o fantais
uniongyrchol i'r rhai ag anghenion
arbennig o fewn y gymuned.*

*Gwahoddir ceisiadau am
gymorth ariannol oddi wrth
grwpiau gwirfoddol newydd a hen
grwpiau sy'n ymgymryd â
chynlluniau newydd ac am gael
grantiau graddfa isel hyd £200 a
grantiau graddfa uchel o £15,000*

*Am ragor o wybodaeth a
ffurflenni cais cysylltwch â'r
Ysgrifennydd, Llys Ifor, Crescent
Road, Caerffili, Morgannwg Ganol.
Tel (0222) 869224.*

APÊL AM HANES CWM-Y-GLO

Annwyl Olygydd,

*Yn dilyn argymhelliaid
'Cymdeithas Hanes Bro Eco'r
Wyddfa' i gynnal gweithgarwch
lleol, mae aelodau Cwm y Glo a'r
Gymdeithas yn awyddus i gasglu
hanes pob agwedd ar fywyd y
pentref, cyn belled yn ôl â
phosibl.*

*Gan fod y mwyafrif ohonom yn
'bobl ddwad', buasem yn
gwerthfawrogi unrhyw
gyfraniad gan gyn-drigolion, neu
rai â chysylltiadau a gwybodaeth
berthnasol. Os oes gennych
fenthyg hen ddogfennau neu
luniau, gwybodaeth am
ddigwyddiadau arbennig, hanes
crefydd yn y pentref, hen dai a
thafarnau a'u henwau, llwybrau,
cymeriadau diddorol a.y.y.b.,
buasem wrth ein bodd, ac yn wir
ddiolchgar o glywed oddi
wrthyfch. Gofalwn am
ddychwelyd y pethau a
drysorwch, ac os cawn hwyl ar y
chwilota, gobeithiwn ei roi ar gof
a chadw yn y diwedd.*

Cofion cynnes o'r Cwm,

Gwyneth Chick (Mrs)

Ysgrifennydd.

Ffôn: Llanberis 871288

Rhos-y-Ffin, Cwmyglo.

THEATRIG

Saunders Lewis

1893-1985

HARLECH
Theatr Arudwy

Dydd Mercher 13 a Dydd Iau 14
Tachwedd 7.30pm

(0766) 780667

DYFODL Y SWYDDFEYDD POST

Mae Dafydd Elis Thomas, A.S. Meirionnydd Nant Conwy wedi derbyn ateb i'w lythyr at Gadeirydd y Swyddfa Bost ynglŷn â dyfodol swyddfeydd Post yn ei etholaeth. Dywedodd Maurice Collis, Pennaeth yr Ad-drefnu "Fel y gwyddoch, gwnaed cynlluniau i ailraddio Blaenau Ffestiniog a Llanrwst o fod yn Is-swyddfeydd a Chyflog i fod yn Swyddfeydd Cangen. Swyddfeydd y Goron yw'r ddau fath, ac mae hynny'n wahanol i Is-swyddfeydd y post. Ni cheir felly unrhyw newid o safbwynt y gwasanaethau a ddarperir i'n cwsmeriaid. Cyfyngir y newidiadau i weinyddiad mewnol y swyddfa." Dywedodd Mr Collis y b'asai astudiaethau cyffelyb yn cael eu gwneud yn y swyddfeydd canlynol: Bermo, Tywyn, Dolgellau, Machynlleth, Pwllheli, Porthmadog, Llangefni, Llanfairfechan, Caergybi, Caernarfon, Amlwch, Conwy, Llanrwst, Penmaen-mawr, Blaenau Ffestiniog, Prestatyn, Rhuthun, Dinbych, Llangollen, Rhosllannerchrugog.

Mewn ymateb i bryderon Mr Thomas ynglŷn â phreifeiddio'r

busnes cownter dywedodd Mr Collis "Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i breifeiddio'r busnes cownter, er y bwriedir sefydlu'r cownteri fel is-gwmni o fewn Corfforaeth Swyddfa'r Post. Fe wna hyn hefyd greu newidiadau i'n fframwaith weinyddu fewnol. Ni cheir, fodd bynnag, unrhyw gynlluniau i newid rhwydwaith y swyddfeydd post fel yr awgrymwyd gennych chi."

"At hyn, yr ydym wedi gosod embargo ar gau pob un o swyddfeydd post yr ardaloedd gwledig. Er na fu'n bosibl osgoi cau rhai swyddfeydd gwledig oherwydd i ni fethu cael ymgeiswyr i lenwi'r swyddi, gobeithiwn leiha'u'r enghreifftiau o hynny drwy gyfrwng cynllun i dderbyn is-bostfeistri rhan-amser. Ni ystyrir swydd rhan-amser ac eithrio pan fethir llenwi swydd llawn-amser ac ar ôl ni gysylltu â chynghorau lleol yr ardal er mwyn cael eu cymorth i ddod o hyd i ymgeisydd cymwys i lenwi'r swydd amser-llawn."

Dywedodd Mr Thomas y b'asai'n parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

"PARADWYS FFŴL"



Cofiwch am "Paradwys Ffwl", cynhyrchiad diweddaraf Bara Caws, yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, Nos Lun, Tachwedd 4 am 7.30 pm.

Dyma'r actorion fydd yn eich diddori:- CEFN: o'r chwith i'r dde Phil Reid, Bryn Fôn, Erfyl Ogwen Parry. CANOL: Cefin Roberts, Valmai Jones, Sian Meredydd. BLAEN: Linda Brown, Emyr Morris Jones ac Eirian Owen.

"O NA BYDDAI'N HAF O HYD"

Dyma gyfres o 6 rhaglen Adloniant Ysgafn i'w darlledu ar S4C bob nos Lun am 6.30 o'r gloch yn cychwyn Tachwedd 4.

Dymuniad y rhan fwyaf o ymwelwyr i Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanellwedd pob blwyddyn yw cael tywydd braf i fwynhau y diwrnod, ac mae hyn i'w ddisgwyl ym mis Gorffennaf. Yn anffodus ni chawsom lawer o haf eleni ond er mor oer a gwyntog oedd hi cafwyd tridiau heulog a phoeth yn y sioe (yn ôl rhai yr unig dridiau heulog a phoeth eleni!).

Eleni oedd y tro cyntaf i'r diddanwr Gari Williams ymweld â'r sioe. Cymerodd Gari seibiant bach o'i waith llwyfan, radio a theledu i

fwynhau, nid yn unig y tywydd braf ond, ychydig o awyrgylch hapus y sioe ac i sgwrsio ag ychydig o gymeriadau lliwgar o bob rhan o'r wlad.

'O Na Byddai'n Haf o Hyd' yw dymuniad Gari ar ôl ei ymweliad ac i'w helpu i d dod ag ychydig o flas yr ha' bach yn ôl i'n bywydau ar nosweithiau gaeafol Tachwedd mae'n croesawu rhai o Gorau blaenllaw Cymru ynghyd ag artistiaid eraill yn cynnwys unawdwyr, deuawdau, digrifwyr a grwpiau gwerin.

Nos Lun Tachwedd 11 bydd artistiaid o fro'r Eco sef Arwel Jones a Teulu Tŷ'r Ysgol yn ymddangos ar y rhaglen.



GWASANAETH CANSER YNG NGOGLEDD CYMRU

Yn dilyn llythyr oddi wrth Dafydd Elis Thomas, A.S. Meirionnydd Nant Conwy, mae'r Dr Cedric Davies, Prif Swyddog Meddygol Gweinyddol Awdurdod lechyd Gwynedd wedi adrodd ar ymateb yr Awdurdod lechyd i gwynion gan gleifion yng Ngogledd Cymru ynglŷn â'r gwasanaeth. Dywedodd y Dr Davies, "Ystyrir y gwasanaethau radiotherapi yn rhanbarthol o fewn y Gwasanaeth lechyd - hynny yw, oherwydd costau enfawr yr offer a natur arbenigol y gwaith nid yw'n ymarferol lleoli uned ymhob ysbty dosbarth. Y ganolfan sy'n gwasanaethu'r Gogledd yw Clatterbridge ger Lerpwl.

"Byddwch yn cofio fod diffygion gwasanaeth Clatterbridge wedi achosi cryn bryder y llynedd a thrafodwyd hyn gan y Pwyllgor Dethol Cymreig. Yn dilyn y cwynion, penderfynodd Awdurdod Rhanbarthol Merswy fuddsoddi adnoddau sylweddol yn yr uned, gan gynyddu'r staff a darparu dau linear accelerator newydd. Bydd y rhain yn barod yn ystod y misoedd nesaf. O ganlyniad i hyn, gwellhaodd y gwasanaeth cryn dipyn, ond cafwyd cwynion drachefn yn ddiweddar fod yr amser aros am driniaeth yn dechrau ymestyn unwaith eto. Yr wyf

eisoes wedi gohebu â Swyddogion Meddygol Merswy am hyn.

"Rhaid derbyn, fodd bynnag, fod Clatterbridge yn bell o Wynedd pa mor dda bynnag y byddo'r gwasanaeth. Ddechrau'r flwyddyn cyhoeddodd Mr Wyn Roberts, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol, y byddai'n adolygu'r gwasanaethau rhanbarthol yn y Gogledd. Disgwylir dogfen ymgynghorol ganddo yn yr Hydref yn gosod gerbron ei argymhellion ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu gwasanaeth radiotherapi (ymysg eraill) ar gyfer trigolion y Gogledd. Nid yw'n hysbys eto a fydd yn cymeradwyo sefydlu uned yn y Gogledd ai peidio. Yr ateb i'ch cwestiwn felly yw fod y posibilrwydd o sefydlu uned radiotherapi yn y Gogledd o dan ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Os penderfynir creu'r fath uned, byddai'r holl gostau'n cael eu talu gan y Swyddfa Gymreig."

Dywedodd Mr Thomas "Pan gyhoeddir dogfen ymgynghorol y Swyddfa Gymreig, byddaf yn pwysu arnynt i sefydlu uned radiotherapi naill ai yn Ysbyty Gwynedd neu yn Ysbyty Glan Clwyd, er mwyn sicrhau gwasanaeth i Ogledd Cymru."

Cefnogwch ein Hysbysebwy'r

D. LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG

FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

BWRLWM BRO: Nos lau, Hydref 17, gwelwyd rhai o bentrefwyr Deiniolen, Dinorwig a Llanberis yn cymryd rhan mewn rhaglen o'r enw 'Bwrlwm Bro' ar S4C. Y diwrnod cynt y recordiwyd y rhaglen - a hynny yng Nghaerdydd. Aeth llond bws o gystadleuwyr a chefnogwyr i lawr i ganolfan deledu HTV.

Ar y rhaglen, cyflwynwyd ardal 'Troed yr Wyddfa' i'r gwylwyr gan Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin. Aeth Annette â'r tîm ffilmio o gwmpas yr ardal gan sgwrsio â Mr Thomas Williams a'r Parch Trevor Lewis.

Y rhain oedd yn cynrychioli'r ardal yn erbyn tîm arall o Gwm Tawe:

Sgets: Mrs Beryl Hughes, Mrs Marian Wyn Williams a Mrs Marian Williams (aelodau o Sefydliad y Merched, Deiniolen). **Digrifwr:** Mr David Wyn Evans (Dafydd Twins), Deiniolen. **Deuawd:** Ifan ac Olwen Bryn, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. **Triawd:** Annette, Olwen a Marina. **Actio gyda Mici Plwm:** Lynne Jones, Llanberis.

O drwch blewyn yr enillodd tîm Cwm Tawe. Bu canmol mawr ar berfformiadau tîm Troed yr Wyddfa, a pheth da oedd gweld wynebau anghyfarwydd ar S4C.

Trefnwyd y cystadlu a'r daith i Gaerdydd gan Mr Gwyn Parri, Cynefin.

Y DAITH I GAERDYDD I GEFNOGI'R BWRLWM BRO

Aeth criw ohonom lawr i Gaerdydd am dro Taith go faith mae hynny'n ffaith Ond nid mor flinedig â hynny chwaith Yn gymysg o ddynion, merched a phlant A phawb yn bwyta nôl chwaith y dant. Rhai yn sâl a taflu i fyny

A phawb ohonom bron â rhynu Yn ceisio rheoli'r gwynt a ddôl o'r to Rhaid dweud wrth leuan wnaiff hyn môr tro.

Seibiant yn Llanidloes am de neu goffi A phawb wrth reswm isio PP O'r holl ferched rhai clên a blin Pwy all ragori ar Kathleen? O, roedd fel y Cwin, ond heb y (Crown) Ac o'r dynion pwy mor ffamôs A'i chwerthiniad od na'r enwog Domo's? Arwr yr ardal yn ddi-os

A rhan mor bwysig yn y cyflwyniad I'r Band a'r miwsig a'i hir gysylltiad Beth am y gyrrwr a'n dug i ben y daith? Yn brydlon a diogel, mae Dafydd yn deall ei waith.

Rôl cyrraedd ein prif ddinas, Caerdydd Roedd y cefnogwyr wedyn yn rhydd Ond am y cystadleuwyr druan, wrth gwrs Fe'u carcharwyd hwy yn Croes-Cwrlwys I chwysu am weddill y dydd.

Ninnau'n pedwar yn rhodio'n rhydd Yn gweld adeiladau enwog Caerdydd Neuadd Dewi Sant, Parc yr Arfau, Capel Tabernacl, a chinio yn Berni Roedd hyn yn ddwy wledd i Bobi Wedyn fe'n cyrchwyd yn ôl i Croes-Cwrlwys

I'r neuadd ddisgwyl i eistedd a gorffwys A cyfarfod cefnogwyr brwd Cwmtawe Yn dilyn, cawsom y te addawedig Cymysgedd o sbeis a chyw iâr rhostedig A llyn o de mewn cwpan blastig. Am saith yn brydlon fe'n harweiniwyd i mewn

I dalwrn yr ornest, y Stiwdio Un Coedwig o beiriannau o'r llawr i'r to Camerâu, rhai llaw a rhai ar dro, Lampau trydan mawr a rhai fel llygad llo Yn rhedeg y sioe gwelais mae'n wir ddeg Rhai'n gweithio'r camerâu a rhai â gwaith ceg

Cyhoeddwyd rheolau yn glir a phlaen Dim smocio na cherdded ôl a blaen, dim pesychu na tisian Pawb i glapio fel bo'r gofyn, a pheidio 'run mor sydyn.

Am hanes awr 'di saith cychwynnodd yr ornest

Yr Archgyflwynydd yn cyflwyno'r ddau dîm

Y ddau feirniad, a'r campau fel â ganlyn Unawd, deuawd, triawd, a grŵp fel 'Plethyn'

Dafydd y digrifwr, a dau, un yn iodlwr. Dwy sgets, un Cwmtawe - gŵr a gwraig mewn trwbwl

Un Deiniolen, digwyddiad wrth ddisgwyl y bys

Dwy Gymraeg a rhyw hen Saesnes yn gwneud ffys

Actio gwreiddiol a digon o hwyl a sbri Tra rhagori ar ddau Gwmtawe debygwn i Y dyfarniad terfynol - Cwmtawe aeth â hi Heb wenwyn iddynt ni fedraf ddeall pam Ond dweud go dam fe gawsant gam Ta waeth am golli cawsom ddiwrnod i'w gofio

Gweld a rhyfeddu ar brif ddinas Cymru. Wynebu am adref wedyn ar siwrna faith Rhai'n canu, rhai'n ceisio cysgu, ond tawelu a methu

Llion yn gyrru trwy niwl yn aml, er gwaetha'r golau coch Yn ddiolchgar a diogel cyrhaeddodd Ddeiniolen wedi tri o'r gloch Pawb yn falch o gyrraedd adra Ac i'r tîm, llongyfarchiadau.

CLWB ELIDIR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Clinic ddydd Mawrth Hydref 8. Roedd y cyfarfod yng ngofal y Llywydd Mrs C. Marren. Y gŵr gwadd oedd Mr John Williams. Treuliodd prynhawn hyfryd yn gwrando arno yn dweud ei hanes yn dechrau gweithio yn chwarel Dinorwig. Talwyd diolchiadau gan Mrs C. Marren a Mrs Megan Morris. Estynnwyd croeso yn ôl i'r Clwb i Mrs Ellen Williams, 2 Bwthyn ar ôl cael damwain. Cydymdeimlwyd â Mrs Jane Jones; a Mrs Jane Eirlys Williams yn eu profedigaeth. Hefyd â theulu'r ddiweddar Mrs Annie Williams, 3 Bwthyn; oedd yn aelod selog o Glwb Elidir; hyd iddi gael ei tharo'n wael. Rhoddwyd y te gan y Llywydd; ac enillwyd y raffi gan Mrs Ethel May Roberts.

CLWB ELIDIR: Cyfarfu aelodau Clwb Elidir yn y Clinic bawn ddydd Mawrth, Hydref 22 dan lywyddiaeth Mrs C. Marren.

Cynhaliwyd cyfarfod



Q.E.2: Yn ystod mis Medi' Treuliodd Mrs Annette Bryn Parri bum diwrnod ar fwrdd y Q.E.2. Yn ystod mordaith rhwng Southampton a Phorthiwgal bu Annette yn canu'r piano mewn dau gyngerdd.

Yn y llun fe'i gwelir yn cyfarfod capten y Q.E.2, y Comodor Douglas Ridley. Yna ar Hydref 23, gwahoddwyd Annette i gyfeilio Aled Jones mewn cyngerdd ym Mhalas Kensington yn Llundain, sef yng nghartref y Tywysog Charles a'r Dywysoges Diana.

Yn ystod misoedd Hydref Rhagfyr, gwelir Annette yn cyfeilio i Trebor Edwards a'i westeion mewn cyfres newydd o'r eiddo Trebor ar S4C.

Diolchgarwch yng ngofal Mrs Megan Morris.

Rhoddwyd y te gan Mrs Laura Williams, Mrs Jane Jones, Mrs Mary Morris a Kathleen Jones. Enillwyd y raffi gan Mrs Evie Williams, Llysfryn, Clwt-y-bont. Cymerwyd rhan gan yr aelodau canlynol, Mrs Katie Griffith, Mrs Jane Eirlys Williams, Mrs Jane Jones, Miss Elizabeth Thomas, Mrs Eirlys Lloyd Jones, Mrs Betty Wyn Davies, Mrs Ellen Williams, Mrs Nancy Rowlands, Mrs Mary Morris, Miss Moeller, Miss Kathleen Jones.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Tachwedd 5.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 7 dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol. cawsom sgwrs ddifyr ar blanhigion tŷ. Croesawyd Eirian Jones yn aelod newydd. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Lloyd Jones a Miss Kathleen Jane Jones. Enillwyd y raffi gan Mrs Eirian Jones. **Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 4 pryd y disgwylir Mrs Maud Williams, Caernarfon i sgwrsio ar Ddawnsio Gwerin.**

Y SEINDORF: Enillwyd Clwb 200 am fis Hydref oedd 1. £25, Mrs B. Roberts, Maes Eilian, Dinorwig, 2. £15, Mr D.W. Evans, Tai Gwledfa, 3. £8, Mrs Hilda Seynor, Bangor, c.o. Dafydd.

DIOLCH: Dymuna Mari, 6. Ffordd Deiniol ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a'i ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r arian a

dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn arbennig i'r staff ar Ward Enlli am eu gofal caredig.

Dymuna Ernest a Margaret, Hafan, 7 Porth y Gogledd ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Arian.

PLAID CYMRU: Cynhelir 'Cawl a Chân' yn Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Fercher, Tachwedd 13 am 7 o'r gloch. Mynediad 75c i oedolion a 50c i blant a phensiynwyr. Croeso cynnes i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN: Croeso i Mrs Elan Williams ein cynorthwywraig newydd. Mae'r Ysgol Feithrin bellach ar agor 5 bore'r wythnos, felly pob lwc i Anti Valmai ac Anti Elan wrth eu gwaith!

Cynhelir 'Ffair Dolig' yn Neuadd Ysgol Gaun Gynfi ar nos Wener Tachwedd 29 am 6.30. Gobeithir y cawn gwmpeini Siôn Corn, a bydd amrywiaeth o stondinau; yr elw at yr Ysgol Feithrin. Mae'r pwyllgor hefyd yn brysur drefnu parti i'r mamau: **nos Wener, Rhagfyr 13 yn y Felin Wen, Pontrug; enwau i unrhyw aelod o'r pwyllgor mor fuan ag sy'n bosib.**

DIOLCH: Dymuna Gwen Lloyd Roberts, Awel y Mynydd ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd mawr a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd am fis - y llu cardiau ac anrhegion. Hefyd i'r gweinidog, y Parch Trevor Lewis, ac yn arbennig i staff y wardiau Conwy a Dulas am eu gofal diflino. Mae'n awr yng nghartref ei merch a'i mab yng nghyfraith ac yn cael gofal caredig yn foreuol gan nyrs yr ardal cyn mynd i gael triniaeth bellach, ond mae'n well. Diolch i bawb am eu ffyddlondeb nas anghofir.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

GWNEWCH O EICH HUN

Y Gwalch

ROEDD Siôn a fi wedi mynd i'r dre rhyw gyda'r nos ddiwadd y flwyddyn i chwilio am silffoedd llyfra, ac mi ddaru ni brynu rhai gan rhyw hen foi ar y Maes, ac er ei bod hi'n llwyd dywyll, roedd o wedi ein gweld ni'n dwad o ben draw Stryd Llyn.

Dydw i ddim yn cofio faint oeddan nhw rŵan, ond mi perswadiodd ni, nid yn unig eu bod nhw yn ffaidd o rad, ond ein bod ni'n hogia oedd yn nabod bargan wrth ei gweld hi. Roedd y silffoedd yn dderw hefyd. Roedd o'n pwysleisio cymaint ar y ffaith honno nes yr oeddwn i yn disgwyl gweld mës yn tyfu arnyn nhw.

Yr adeg y gwnes i ama na fasa nhw ddim yn gwneud yn y tŷ a oedd, pan oedden ni'n trio eu cael nhw i lofft y dybl dec i ddŵad adra. Fynna' conductor ar un cyfri i ni eu dal nhw ar ein glinia i lawr grisia rhag ofn i ni dorri'r bylbs neu yddfa pobol, ac mi fuo raid i ni eu dal nhw ar y grisia yn solat yr holl ffordd, ac mi fuo raid i ni gael caniatâd yr inspector hyd yn oed i wneud hynny, ac ar ganol y ddadl dyma fi'n dweud wrtho fo,

"Mi rydw i'n cofio adag pan fyddach chi'n cario lloia ar y motos ma."

"Mae 'na un neu ddau yn dal i ddŵad i fyny weithia," medda fo.

Wrth gwrs, roedd 'na bobol isio dŵad i lawr o'r llofft ar y daith, ac yr oedd rhai ohonynt nhw yn barod iawn eu hawgrymiada wrth drio stwffio heibio i ni, beth fasa ni'n gael ei wneud hefo'r silffoedd heblaw dal llyfra, a phan ddaeth hi'n adag i ni fynd i lawr ar ben Allt Riwth, roedd teithwyr y llofft yn hongian allan drwy'r ffenestri a gwylho'r styrffag, ac wrth i'r cerbyd ailgychwyn, roedd y conductor yn hongian allan ar y step yn ein hatgoffa ni ar dop ei lais fel yr oeddann ni wedi bod yn rhwystr iddo fo hel pres, a'i fod o hannar awr ar ei hôl hi a bob matha, ac y dyla fo fod wedi rhoi sgwd i ni a'n tacla allan ar Rhos Bodrual.

Ond ar ôl cyrraedd y tŷ dechreuodd petha fynd yn ddrwg o ddifri. Doedd gan yr hen fusus ddim taro am y dodrefnyn ar yr olwg gynta, ac yr oedd fy amheuan i yn iawn; deutha fo ddim rownd congl y lobi bach er i ni roi wif rhyngddo fo a'r parad, a doedd dim amdani ond tynnu rhyw ddwy fodfadd o'i waelod o hefo'r lli fawr, honno fydd gynon ni yn hel poethwal, ac mae hi ar ei gora yn tueddu i dynnu i'r chwith yn y dydd, heb sôn am hannar ffordd i lawr yr ardd ar noson dywyll. Y canlyniad oedd, ar ôl i ni gael y dodrefnyn i mewn o'r diwadd, ei fod o'n wablian uwch ben ei draed, a natur dŵad ar ei wynab. Ond mi ddaethon ni tros hynny drwy weigio dwy lechan bach odano fo, ac wedi i ni gael y llyfra arno fo yn un rhes, roedd o'n edrach yn eitha buddiol, ac mi dawelodd yr hen fusus hyd yn oed ar ei gownt o, hynny ydy nes y daeth yr hen Jip.

Mi fydd yr hen Jip yn arfar taro i mewn weithia i edrach fydd gen i hen haearn neu rhywbath fydda i isio madael â fo, a'r peth cynta wnaeth o ar ôl dŵad i mewn i'r tŷ oedd taro ei lygad ar y silffoedd.

Wrth gwrs mae dyn yn dysgu rhywbath newydd bob dydd, ac o'r cyfeiriad mwya annhebyg mae o'n dŵad yn amal. "Wedi cael ei gneud yn Hong Kong maen nhw," medda fo, "hefo llwch lli a phoeri Chinc." Ac mi gefais reswm i gofio ei eiria fo yn ddiweddarach. Mi ddechreuodd y silffoedd gamu a mynd ar ystym haneri lleuad, ac heblaw fod rhywun

wedi mynd i ameu eu gwneuthuriad nhw, roedd hi'n codi'r bendro ar ddyn hyd yn oed i edrach arnyn nhw yn hir. Ond yr hen fusus ei hun ddaeth i'r adwy hefo'r feddyginiaeth."

"Tasa ni'n eu troi nhw a'u penna i lawr, mi fasan yn dŵad atyn eu hunain," medda hi.

Roedd hi'n iawn. Atyn eu hunain y daethon nhw hefyd. Ond ddaru nhw ddim bodloni ar hynny. Dyma nhw yn dechra plygu y ffordd arall, ac un noson, pan oedd pawb a'i ben yn ei bapur, dyma un â chlec a rhoi ei baich i fyny, ac un o'r rhai ucha oedd honno. O ganlyniad, mi dorrodd dwy arall ar ei ffordd i lawr, a dyna lle'r oedd Geiriadur Charles, a dyna Chredodau'r Byd, ar lawr, a'u dal ar led fel adar wedi eu saethu, ac yr oedd clawr fy Llyfr Mawr Llysiau fi wedi dŵad oddi wrth ei gilydd, a'r diwrnod wedyn roeddwn i'n drymgla o anwyd, a phan es i at y doctor i gael rhywbath ato fo, roedd o'n deud mai'r sioc reit siŵr oedd wedi dŵad â fo.

Mi gawson ni draffarth wedyn cael gwarad â'r silffoedd; fynna yr hen Jip hyd yn oed mohonynt nhw am bris yn y byd, ac mi fedra i ddeud rŵan, ar ei ben, fod llwch lli Hong Kong yn beth siort sala am fflagu, ac mi fuo raid i ni losgi bwcedeidia o'r glo gora o danyn nhw i gael gwarad â'r cwbl i gyd. Wedyn, yr oedd yn rhaid dechra meddwl am rhywbath arall i ddal y llyfra, achos, erbyn hyn, roeddann nhw mewn sacha tatws yn pwyso ar y muria.

Yn y diwadd dyma ni'n mynd i'r lle dodrefn mawr hwnnw ar gwr y dre, ac mi ddaeth Wil Robaits, Tai'r Wlad hefo ni, am fod gyno fo gar a rac reit gry ar ei ben o, ac ar ôl swlffa rownd y lle, dyma'r hen fusus yn ffansio dodrefnyn gwyn a silffoedd arno fo, ac mae'n rhaid cyfadda fod ei edrychiad o yn magu mwy o ffydd yn rhywun ar gyfar y dyfodol nag a wnaeth y llall o'r cychwyn cynta. Roedd yna rhyw ddyn hefyd, reit neis, yn canmol ei rinwedda fo, a dyma'r hen fusus yn y diwadd yn mynd i'r offis ym mhen draw'r adeilad i dalu amdano fo.

Roedd hi'n cymryd ei hamsar hefo'r dyn a ninna yn ei gweld hi'n hir, ac ofn symud ymhell oddi wrth y peth, rhag ofn, lasa ni, i rhywun arall weld ei wyn arno fo, ac i ychwanegu at ein hanesmwythder, pwy ddaeth i guro ar y ffenest ond Wil Robaits a golwg bryderus arno fo, ac yr oeddann ni yn digwydd bod yn gwybod fod ganddo fo fuwch adra a honno yn ymyl llo.

"Mi awn ni â fo allan i dawelu dipyn arno fo," medda fi wrth Siôn, a dyma ni'n gafael yn y dodrefnyn, un ymhob pen, ac mi gawson dipyn o hambyg mynd â fo ar draws y siop, am fod y lle erbyn hynny yn dechra llenwi. Ond mae Siôn yn gry fel bastad mul, ond ei fod o'n dueddol o

bwcsio, ac mi ddaru ni andwyo rhyw ddynas wrth ei gwasgu hi yn erbyn drws wardrob. Ond beth â roddodd y penblath mwya i ni ar ôl cyrraedd y drws, oedd sut yn y byd y cawson nhw fo i mewn i ddechra, achos mi dagodd rhwng y post a'r drws, ac erbyn bod hwnnw yn un gwydr, roedd rhywun yn dal ei wynt, a doedd Wil Robaits yn lleihau dim ar bryderon rhywun drwy chwifio ei freichia a gweiddi, "dal atat - dal draw", fel tasa fo'n cyfarwyddo cystadleuydd mewn ras redig, ac erbyn hyn, roedd yna bentwr o bobl yn disgwyl cael dŵad i mewn, a chriw arall ar dân isio mynd allan. Beth bynnag mi gawson y dodrefnyn yn rhydd o'r diwadd, ond fod postyn y drws wedi ei stumio mewn un lle, ond mi boerodd Wil Robaits arno fo a'i rwbio fo hefo'i fawd.

Busnas bach wedyn oedd cael y peth ar ben y car, ac mae Wil yn cario rhaff greigio hefo fo i bob man, rhag ofn i'w foto fo dorri ymhell o gartra a dyma fo'n dechra rhaffu'r silffoedd yn y rac fel tasa fo'n rhwymo stemar wrth y cei, ac ar hynny, dyma ni'n clywad rhyw weiddi, a phwy oedd yn dŵad amdano ni ar ras ar draws y parcin ond yr hen fusus, a'r dyn neis hwnnw o'r siop, ac yr oedd gan y dyn rhyw focs carbod ar ei gefn, ac yr oedd hi'n amlwg fod yna rhyw newid sydyn wedi dŵad trosto fo, achos dyma fo'n gweiddi ar Wil Robaits, "Lle rydach chi'n feddwl ydach chi'n mynd hefo'r dodrefnyn 'na?'"

"Lle rwyd ti'n feddwl yr af i radag yma o'r nos ond adra," medda Wil.

Ond erbyn deall, doedd dim syndod fod y dyn wedi newid ei diwn, ar y sioe yn unig yr oedd y dodrefnyn cyfa i fod. Roedd ein silffoedd ni yn y parsal gan y dyn, yn ddarna, yn barod i'w roi wrth ei gilydd fel set Meccano, ac erbyn iddo fo gael y ffaith honno i'n penna ni, roedd hi bron yn amsar cau, ac mi fuo raid i Wil Robaits roi cyllath yn ei glyma, a'r peth dwaetha welson ni wrth droi i fynd adra oedd pump o ddynion yn trio cael y dodrefnyn drwy'r drws yn ei ôl i'r siop.

Ar ôl ei gael o adra, doedd byw na marw gan yr hen fusus na fasa ni'n rhoi'r silffoedd wrth ei gilydd y munud hwnnw, ac yr oeddann ni mewn penblath ar ein hunion. Doedd 'na ddim llyfr na math o gyfarwyddiadau eu cyfyl nhw, ac mi aeth yn oria mân arna ni yn bydio, ac ar ein gwaetha fedra ni ddim cael gwell siâp arnyn nhw na blwch matsus wedi mynd yn gam. "Dos i nôl morthwl," medda fi wrth Siôn, "i drio perswadio dipyn arnyn nhw ddŵad at ei gilydd." Ond yr unig beth fedra fo roi ei law arno fo yr adag yno o'r nos oedd y morthwyl glo, a phan gyrhaeddodd o hefo hwnnw o'r diwadd, roeddwn i'n dal fy modia ar gongl y dodrefnyn i'w rwystro fo fynd yn ei ôl i'r un siâp ag yr oedd o yno fo yn y boc.

Wrth gwrs tydan ni i gyd ddim yn glyfar 'run fath. Dyma'r hogyn yn cymyd swing fel tasa fo'n gosod polion i gau rhag defaid, ac mi gafodd slap heibio, ac mi fuo pobol hyd y fan 'ma yn gofyn i mi am wythnosa wedyn, beth oeddwn i wedi ei wneud i fy mawd.

Wedi iddyn nhw fy nhgael iigadar a stopio fy ngwaed i, roedd hi'n dechra goleuo, a dyma'r hen fusus

yn gneud panad reit boeth i bawb a rhoi jioch o *rum* yn fy un i, wedyn dyma ni i'n gwlaui a gadael y cwbl tra'r oedd y gweddill o'n haeloda ni'n gyfa.

Bora dydd Llun dyma ni yn ôl i'r siop i ofyn i'r dyn beth oeddann ni wedi ei wneud yn rong, ond mi ddeudodd rhyw hogan wrthan ni, ar ôl bod yn rhwyla am hir yn holi, fod y dyn wedi cael galwad sydyn i bendraw Lloegr i gladdu rhyw berthynas, a'i fod o'n bwriadu cymryd ei wylia hefyd yr un pryd. Doedd wybod pa bryd y basa fo yn ei ôl. Tasa ni'n licio ffonio ... Wedyn doedd dim i'w wneud ond mynd adra a chwipio darn o weiran blaen am y silffoedd, ac mi ddaliodd y trefniant hwnnw yn reit dda, hynny ydy, tan fora'r daeargryn hwnnw. Roeddwn i yn fy ngwely yn digwydd bod, ac ar ôl y rhud cynta, mi glywis daran arall o dana i, ac roeddwn i'n meddwl mai cynffon y sgytiad oedd o yn mynd i lawr yr allt, ond erbyn gweld, roedd y silffoedd wedi syrthio ar eu wyneba a'r talcenni wedi torri yn gratchian, ac fel tasa rhywbath yn mynnu bod, pwy ddaeth yn y pnawn ond yr hen Jip. "Brics ydy'r unig araf i ti rŵan," medda fo, "o danyn nhw. Mi fedri roi faint lici di wyt ti'n gweld fel bydd y galw. Mae gen i rai gei di *cost price*. Ac mi ddaeth â berfad yn yr hen fan honno, wedi eu cael nhw o rhyw dai wedi eu dymchwal, a rheiny roison ni, ac yr oeddann nhw yn gweithio yn iawn hefyd, hyd yn oed os oedd darn o'r gegin yn edrach 'run fath â chefn siop Ifan Jones.

Ond rhyw ddiwrnod mi ddaeth 'na hogyn yma at Siôn, a dyma nhw yn mynd i ddechra cadw reiat fel bydd rhyw lafna ac mi hyrddiwyd un ar ei gefn i'r silffoedd brics, a dyna oedd yn ein derbyn ni pan ddaethon ni adra yr hen fusus a fi, oedd chwanag o lanast, ac mi es ar fy llw y baswn i'n gwerthu'r llyfra i'r hen foi hwnnw yn y farchnad a byw yn fy anwybodaeth yn llawan. Ond medda'r hogyn oedd wedi achosi'r holl bonsh mwya didaro, "Pam na smentiwch chi'r blydi lot at ei gilydd?"

A dyna ydan ni'n mynd i neud un o'r dyrnodia 'ma pan gawn ni gyfla i fynd i'r lyg â nhw - hynny ydy - os medrwn ni fynd tros ben yr hen fusus i adael i ni gymsygu'r sment yn y gegin.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Medi 26 dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Cydymdeimlwyd â Mr Richard Jones o golli ei wraig, a oedd yn aelod ffyddlon. Ein gŵr gwadd am y noson oedd y Parch Alun Hawkins a chafwyd sgwrs ddiddorol dros ben am Westminster Abbey.

Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs A.B. Jones a Mrs Jean Elis. Y gwestwagedd oedd Mrs Betty Evans, Mrs Dorothy Thomas, Mrs Nan Owen a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Jackson.

DIOLCH: WILLIAMS: Dymuna chwaer a theulu'r ddiweddar Mrs Enid M. Williams, Llys Eidda, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a chydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn. Diolch am yr ymweliadau, y galwadau ffôn, y llythyrau a'r cardiau lu.

Diolch yn fawr iawn i bawb am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbynias ar ôl triniaeth yn yr ysbyty - Nia Jones, Minffordd, Ffordd Tŷ Du.

Dymuna Mrs Clara Roberts, Anfield, ddiolch i'r theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd pan oedd yn Ysbyty Dewi Sant Bangor.

Dymuna Rhian a David o Abercynon, De Cymru ddiolch yn fawr iawn i'w ffrindiau a'r teulu am bob anrheg a cherdyn a dderbyniwyd ar enedigaeth Hefin.

Dymuna Carys a Todd Fellows, Sant Athen, De Cymru ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Daniel.

Merch Selyf a Delyth Hughes yw Delyth. Ein llongyfarchiadau i Carys ar ddatlu ei phen-blwydd yn 21ain ar Fedi 27.

Dymuna Carys ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd.

dymuna Mrs Sheila Atkins, Kinloss, Yr Alban a Mr Alfred Hughes, West Bromwich - plant y diweddar Mr a Mrs John Hughes, 4 Rhes Fictoria - ddiolch o galon i'r pentrefwyr am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaethau. Diolch yn arbennig i'r meddyg lleol, y Parch Alun Hawkins a Mr Myrddin Pritchard.

BEDYDD: Ar Sul, Hydref 6 yn Eglwys St Padarn o dan ofal y Rheithor y



Yn Eglwys Sant Padarn ar Hydref 5 1985 priodwyd Paula Jones, Ael y Bryn, Stryd Newton a Gwynfor Lloyd Roberts, 18 Y Garreg, Groeslon. Bydd y pâr ifanc yn ymgyrtrefu yn Bryn Mair, Stryd y Ffynnon, Llanberis. Llun: ISLWYN JONES, LLANRUG.

Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r pâr ifanc.

Parch Alun Hawkins, bedyddiwyd Ffion Angharad, merch fach Kenneth a Catrin Roberts, Walsall - chwaer fach Rhys Lewis, ac wyres Mr a Mrs Tom Roberts, Bryn Hyfryd a Mrs Elizabeth Jones, Pentrecastell.

COFION: Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau am adferiad iechyd buan i'r pentrefwyr hynny sy'n dioddef unrhyw anhwylder un ai yn yr ysbyty neu gartref.

MARW: Yn frawychus o sydyn yn ei gartref Medi 29 bu farw Colin Newton, 1 Dôl Elidir. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'i briod Vera a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Medi 28 bu farw Mrs Enid Mabel Williams, Llys Eidda, Stryd Newton. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu i gyd.

Yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 16 bu farw Mr Thomas Salisbury Roberts, Waterfall View yn 68 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i briod Gracie yn ei phrofedigaeth.

Ym mis Awst yn Ysbyty Rhuthun, wedi cystudd blin, bu farw Mrs Enid Davies, BA, gweddwr diweddar lorwerth Davies. "Enid Tal y Don" oedd i ni ei chyfoeswyr yn Llanberis ers talwm. Fe roedd gan ei thad fusnes gwerthu glo. Wedi gadael y Brifysgol bu'n gweithio am gyfnod yn y BBC ac wedyn fel Ysgrifennydd i'r ddiweddar Fonesig Megan Lloyd George. Wedi ei phriodas ymsefydlodd yn Rhuthun; ond roedd ei gwreiddiau yn ddyfn yn Llanberis. Derbyniai 'Yr Eco' yn gyson, a byddai'n awchus am hanesion o'r ardal. Nis oes ar ôl o'i theulu ond ei chyfnither, Mrs Hannah Williams, Plas Pengwaith, yr estynnwn ein cydymdeimlad iddi.

PROFEDIGAETH - Yn frawychus o sydyn ar Hydref 25 bu farw loan, baban bach blwydd oed Alice ac Arwel Lloyd Roberts, Penygroes. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Alice ac Arwel a chyda nain a taid, Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â Mrs Mary Jackson, 11 Maes Padarn ar farwolaeth ei mab Irvine yn 43 oed wedi gwaeledd hir a blin. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwaer Elizabeth a'i frawd Gareth, ei frawd loan a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DYMUNA Mrs Mary Jackson, Joan, Elizabeth, Gareth a Brenda, ddiolch o galon i'w cymdogion, a chyfeillion am eu cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli Irvine yn 43 oed, ar ôl gwaeledd mawr. Diolch hefyd am y llu cardiau, galwadau ffôn, ac ymweliadau a'r blodau.

FFYDDLONIAID ST JOHN'S - Cynhaliwyd Gwasanaeth o Ailgyflwyno ym mhresenoldeb Duges Caerloyw, yn Eglwys Santes Fair y Trallwng, Powys, ddydd

Sadwrn, Hydref 19. Yn ystod y gwasanaeth hwn, urddwyd Miss Glenys Mair Parry, 18 Ffordd Ceunant, Llanberis i Chwaer Gadlywydd am ei gwasanaeth a'i ffyddlondeb am 29 mlynedd i Adran Sant loan, Llanberis.

Hefyd, yn yr un gwasanaeth, derbyniwyd Mr Bryn Cadwaladr Parry a Mrs Janet Davies i Fudiad Sant loan. Urddwyd Mr Parry fel Gwas Offeiriad a Mrs Davies fel Morwyn Offeiriad am eu gwasanaeth ymroddgar ers llawer blwyddyn i fudiad eu hardal.

Ein llongyfarchiadau cynhesaf i'r tri, a diolch iddynt am roi eu gwasanaeth mor wirfoddol ar hyd y blynyddoedd.

LLONGYFARCHIADAU i Dilys, merch Mrs Joyce Jones, 27 Dôl Elidir ar ddatlu ei phenblwydd yn 21 ar Hydref 24. Dymunwn y gorau iddi.

DYMUNA Christine a Gareth Jones, 12 Llainwen Isaf ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau a'r caredigrwydd a dderbyniodd Gareth tra bu'n derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DRAENOG

Glywsocch chi am y cwpwl yna o Lanberis a fu am bythefnos yn dadwisgo ar ben y 'landing' gyda'r nos. Pam? gofynnwch chi. Wel, doedd y golau ddim yn gweithio yn yr ystafell wely! Er iddynt brynu bylby newydd doedd dim golau. Dyna alw am drydanwr rhag ofn bod gwall yn y gwifrau, byth dim golau.

Pysyl go iawn. Yna cafwyd goleuni ar y dirgelwch. Daeth y mab adre a chyda phlwc ar y llinyn uwchben y gwely, dallwyd y teulu gyda'r golau llachar. Wedi anghoffio mai un 'Two-way' oedd y swits.

O'R SIOE FFASIWN



Ac fe ddaeth hwn/hon yma i 'dorri cyt'.

Archebwch eich

CACENNAU NADOLIG



RWAN! Oddi wrth

HEATHER JONES

7 Stryd y Ffynnon

LLANBERIS

Ffôn: 872569

Hefyd teisennau eraill o bob math - unrhyw faint a siâp

Busnes newydd ym
Mro'r Eco ...

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.

3513

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

SIOE FFASIYNAU AT ACHOS DA



Yn ddiweddar cynhaliwyd Sioe Ffasiynau yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, wedi'i threfnu gan Mrs Celia Thomas, 'Maxelle's'. Roedd yr elw o'r Sioe yn cael ei roi ar gyfer Clwb Methodig Eryri.

Yn y llun mae Mrs Celia Thomas yn eistedd rhwng Rhian Roberts a'i merch ei hun Miriam. Tu ôl iddynt mae modelau'r noson, y rhan fwyaf ohonynt yn dalentau lleol!

ETHOLIAD CYNGOR CYMUNED LLANBERIS WARD PADARN B

Dydd Iau Tachwedd 7



Gwilym Wyn Roberts
(Hogyn Wil Lôn Bost)

Fel hogyn sydd wedi eni a'i fagu yn Llanberis, credaf ei bod yn ddyletswydd arnaf i geisio gwneud rhywbeth er lles y pentref a'r

pentrefwyr. Felly gofynnaf yn ostyngedig am eich cefnogaeth ar y 7fed o Dachwedd i'm hethol i'r sedd wag ar Gyngor Cymuned Llanberis. Pe'm hetholid gwnaf fy ngorau i bawb yn ddi-wahân. Diolch yn fawr, Yr eiddoch yn gywir

Manylion am Gwilym Wyn Roberts
Wedi ei eni a'i fagu yn Llanberis. Byw yn 15 Maes Padarn. Yn 24 mlwydd oed. Adwaenir i bawb fel hogyn Wil Lôn Bost. Addysgwyd yn Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis ac Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug. Coleg Ysbyty Brifysgol y Waun, Caerdydd (Myfyriwr y flwyddyn 1982). Aelod o Gwmni Drama Llanberis. Trysorydd Pwyllgor Canolfan Llanberis. Ysgrifennydd Plaid Cymru Cangen Llanberis, mewn cysylltiad agos â'r Aelod Seneddol. Gweithio fel Therapydd Galwedigaethol Uwch yn Adran

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Hydref 6 cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Beiblau adran Deiniolen a'r cylch yng Nghapel Dinorwig MC. Yng nghyfarfod y pnawn cafwyd eitemau mewn canu a llafar gan blant eglwys i'r cylch. Llywyddwyd gan Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Traddodwyd y fendith gan y Parch John Morris, BD, Llanrug. Yn yr hwyr cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn eglwys Sardis B am y tro cyntaf dan arweiniad Mrs Ann Evans, Penisarwaun. Llywyddwyd gan Mr Robert Williams, YH, Deiniolen. Gwnaed casgliadau yn y ddau gyfarfod tuag at Gymdeithas y Beiblau.

ADREF O'R YSBYTY: Da deall fod Mrs Medwen Griffiths, Feol Cottage wedi dod adref o'r ysbyty. Parhaed i wella.

TE'R CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf eleni o dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd, Dinorwig, MC pnawn Iau, Hydref 17. Rhoddwyd y te gan Mrs Laura Williams, Tan-y-fron, Dinorwig.

DOSBARTH WEA: Bu dosbarth ola'r tymor nos Iau, Hydref 17 yn y Ganolfan. Yn ystod y tymor

ymdriniwyd â'r maes 'Grym Geiriau' dan arweiniad yr athro Mr Ifor Baines, BA, Penygroes. Cyflwynwyd anrheg o Docyn Llyfr i Mr Baines gan y dosbarth fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'r dosbarth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau, am yr holl gardiau, blodau ac arian, a dderbyniodd ar ei phen-blwydd y mis diwethaf. Diolch i bawb.

Dymuna Mrs Medwen Griffiths, Foel, ddiolch yn fawr i'w pherthnasau a chyfeillion a fu mor garedig wrthi tra yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCHGARWCH: Bu Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Dinorwig MC nos Sul Hydref 20. Cymerwyd rhan gan aelodau ieuainc yr eglwys, Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Miss Marian Jones, Bro Elidir, Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Mrs Betty Peris Roberts, Maes Eilian a Mr David L. Hughes, Maes Eilian. Traddodwyd y fendith gan Mr John Peris Roberts, Maes Eilian.

Bu Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Sardis (B) pnawn Sul Hydref 20. Cymerwyd rhan gan y plant a'r brodyr yn y pnawn a rhoddwyd anerchiad gan y Parch Ifor L. Williams, gweinidog.



DRAENOG

Yn Gelli Llanddeiniolen
Daeth amser dyfnu'r moch,
Fel arfer amser dyfnu
'Roedd rhai yn gweiddi'n groch,
Mewn hiraeth mawr am fam mor dda
A llefrith gwell na hufan iâ.

Rhiannon aeth gan feddwl
Rhoi cysur i'r rhai bach,
A dipyn bach o foethau
I'w cadw'n sionc ac iach,
Ond baglodd un hi ar ei hyd
Nes oedd hi yn dail moch i gyd.

Fe gododd ac aeth allan
O'r cwt ar frys heb lol,
A tail moch bach yn rhedeg
I lawr ar hyd ei bol,
Aeth am y beudy i ddweud wrth Les,
Ond duwcs 'roedd hwnnw ei hun mewn
'mess'.

'Roedd un o'r gwartheg yno
Heb fod yn teimlo'n iawn,
A Les aeth ati yn addfwyn
Mewn cydymdeimlad llawn,
Ond edrych wnaeth y fuwch yn flin
A chic i Les yn ei benglin.

Yn awr 'roedd rhaid i Robin
Gyfrannu i'r hwyl reit siŵr
A gwnaeth ei ran reit sydyn
Fe fyrstiodd beipan ddŵr,
A thapiau'r ardal aeth yn sych
Ar ôl brath dant y digar gwych.

Mae digon heddiw o hanes
Digalon yn y byd,
Ond triawd llon y Gelli
Sy'n tynnu gŵen o hyd,
Trwy bethau syml gwnant reit siŵr
Tail moch, coes buwch a peipan ddŵr.

Seiciatrig Ysbyty Gwynedd,
Bangor.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Cofiwch am
PARADWYS FFŴL
Theatr Bara Caws
yn Ysgol Brynrefail
nos Lun Tachwedd 4
am 7.30

CYFLE I WIRFODDOLI YNG NGHYMRU

Prif ddiben y gronfa yw hybu cynlluniau gwirfoddol ym meysydd ieuchyd, gwaith cymdeithasol, addysg cymuned a datblygiadau cymunedol ynghyd â chefnogi gweithgareddau gwirfoddol yn cynnwys rhai yr ymgyrmerir â hwy gan bobl di-waith.

Dylai cynlluniau fod o fantais uniongyrchol i'r rhai ag anghenion arbennig o fewn y gymuned.

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth grwpiau gwirfoddol newydd a hen grwpiau sy'n ymgymryd â chynlluniau newydd ac am gael grantiau graddfa isel hyd £2000 a grantiau uchel o £15,000.

Am ragor o wybodaeth a ffurflenni cais cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Llys Ifor, Crescent Road, Caerffili, Morgannwg Ganol. Tel: (0222) 869224.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YR URDD: Mewn cyfarfod yn Ysgol Tan y Coed yn ddiweddar penderfynwyd yn unfrydol fod cangen yr Urdd ym Mhenisarwaun yn awr i fod yn adran Bentref. Golyga hyn y gall plant o 7 oed i 14 oed ymuno. Cynhelir y cyfarfodydd yn yr ysgol ar nos Fercher o 6 o'r gloch tan 7. Tâlaelodaeth am y flwyddyn fydd £1.

Dyma restr o weithgareddau mis Tachwedd:

Tachwedd 6: Video SiwperTed. Tachwedd 13: Sgwrs gan Mr a Mrs Geraint Williams, Careb, Penisarwaun. Tachwedd 20: Dawnsio Gwerin gyda Mr Len Jones. Tachwedd 27: Chwilen.

Cofiwch blant y bydd diod o oren a chreision i'w cael ymhob cyfarfod – pris 15c.

RYGBI: Gan fod nifer o fechgyn wedi dangos diddordeb mewn chwarae rygbi, bydd Mr Meirion Richards, Shamba, yn garedig iawn yn hyfforddi'r hogiau bob bore Sadwrn am 10 o'r gloch hyd 11 o'r gloch. Diolch i Mr W.H. Griffith am roi menthyg cae iddynt.

CAPEL BOSRA: Hydref 6 am 2 o'r gloch bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblaau yn Ninorwig. Diolch i chwi blant am wneud eich rhan mor dda.

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch ganddynt fore Sul Hydref 20 am 10 o'r gloch. Daethant â llysiau, ffrwythau a blodau i addurno'r bwrdd 'Diolch'. Gwasanaeth o Ddiolch a Gobaith gafwyd. Diolch am holl adnoddau'r ddaear, a Gobaith y cânt eu rhannu'n deg i ddiwallu anghenion pobl y Trydydd Byd, a gobaith y daw'r freuddwyd o Heddwch Byd Eang yn wir yn fuan.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Cafwyd gwasanaethau Diolchgarwch llewyrchus ddydd Sul Hydref 20. Offrymwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parch Archdeacon Bailey Hughes a derbyniodd roddion y plant. Cafwyd eitem o ganu gan blant yr Eglwys a diolchwyd iddynt am ddysgu eu gwaith mor dda. Anfonwyd y rhoddion i Gartref yng Nghaernarfon. Am 4.30 pm cafwyd gwasanaeth Gosber a phregeth gan y Parch Ganon R.D. Roberts, BA, Llanfairpwll. Diolchwyd i'r ffrindiau fu'n addurno'r Eglwys mor hardd.

Nos Lun, Hydref 21 cynhaliwyd Ffair Cynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys. Gwnaed elw o £181 tuag at dreuliau'r Eglwys. Diolch i bawb a gefnogodd.

Cafwyd pregeth Diolchgarwch gan y Parch Michael L. Thomas, Bangor.

YSGOL TAN Y COED: Âr plant yn

edrych ymlaen yn eiddgar at wyliau'r hanner tymor, nid felly gofawraig ffyddlon, Mrs Rowenna Williams, Llwyn Derw. Ar ôl dwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth clodwiw i'r ysgol, rhoddodd ei mop o'r neilltu am y tro olaf ddydd Gwener, – yn annorod oherwydd ei hiechyd.

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch go arbennig eleni felly, gan fod gennym gymaint i ddiolch amdano i Mrs Williams. Diolchwyd iddi yn ddiffuant iawn gan Mr Len Jones, gwerthfawrogodd ei gwasanaeth di-rwngach ei gofal aruchel o'r ysgol a'r palnt, a'i gwên siriol a godai calon pawb bob bore.

Fel gwerthfawrogiad o'i hymroddiad i'r ysgol, cyflwynwyd dau ddarlun iddi gan blant a staff yr ysgol – un o Fachwen a'r Wyddfa yn y cefndir, a'r llall o Afon Glaslyn. Derbyniodd fasedd o flodau gan Yvonne, plentyn hynaf yr ysgol ac Elgan yr ieuengaf.

Bu plant y tri dosbarth yn brysyr yn ystod yr wythnos yn tynnu llun, sgwennu storïau a cherddi am Mrs Williams. Derbyniodd lyfr lloffion, 'Yr Ysgubell Aur', gan Mr Gwyn Mowll, a thâp o'r gwasanaeth.

Ar ran y llywodraethwyr, anfonodd Mr Glyn Evans, lythyr i ddiolch iddi am ei gwasanaeth diflino i Ysgol Tan y Coed. Ategwyd y diolch hwnnw gan Mr Aled Green yn y gwasanaeth.

Dymunwn bob hapusrwydd ichi Mrs Williams ar eich ymddeoliad, a chofiwch fod croeso mawr bob amser i chwi yn yr ysgol. Diolch yn fawr, oddi wrth Staff a phlant yr ysgol.

Bydd gwyliau achlysurol ddydd Gwener Tachwedd 22 a dydd Llun Tachwedd 25.

Ydi, mae bywyd yn dechrau yn ddeugain oed i rhai! Dydd Mawrth, Hydref 22, bu Mr Len Jones briodi. Pob hapusrwydd a lwc dda i chi a Mrs Jones oddi wrth bawb yn yr ysgol a phentref Penisarwaun.

CLWB Y MERCHED: Medi 24 cafwyd cwis gan Mrs Nant Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs B.E. Hughes a Mrs Mary Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Nant Roberts. Hydref 22 roedd ffilm gan Fyddin yr lachawdwriaeth.

GWELLHAD: Clywsom fod Mr Sam Parry wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac hefyd Mr Ifon Hughes, Ty'n 'Rardd, Waen.

Gobeithio fod y cefn yn well Mrs Larsen, a bod coes Mrs Porter yn dal i wella.

I chi oll sy'n cwyno o afiechydon, brysiwch wella i gyd.

CLWB YR HEULWEN: Hydref 15, croesawyd Miss Mair Foulkes, a

chafwyd amser difyr yn ceisio ateb y cwestiynau a ofynnwyd. Llywyddwyd gan yr ysgrifennydd a dymunwyd gwellhad buan i Mrs Sally Griffith a Mr Sam Parry. Cydymdeimlwyd â Mr J. Munro ar ôl colli ei frawd a Mrs N. Roberts o golli cyfnither.

Diolchwyd i'r rhai fu o amgylch yn casglu tuag at Henoed Gwynedd. Casglwyd £33.59 a derbyniwyd siec am £16.79 i'r Clwb.

Rhoddwyd y te gan Mrs Nel Williams a Mrs Mary Davies. Diolchwyd gan Mrs J.P. Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs P. Williams. **Bydd y Swper Blynnyddol yn y Foelas Llanrug ar Ragfyr 2. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 19** – y gŵr gwadd fydd Mr John Williams, Deiniolen.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn fel pentrefwyr â theulu Siop Gron. Bu farw Mrs Edna Mary Palin, mam Mrs Pat Owen yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Mr J. Munro yntau wedi colli ei frawd, Mr David Edward Munro o Corby.

CROESO: cynnes iawn i Ceren ac Aled i 4 Bryn Eglwys. Rwy'n siŵr y byddwch yn setlo i lawr yn sydyn yma gan fod digon o weithgareddau yn mynd ymlaen i'ch gwneud yn gartrefol.

LLONGYFARCHIADAU: Peth braf yw clywed am lwyddiant plant ein pentref bob amser. Llongyfarchiadau mawr i Dylan Williams, Carrog ar gyrraedd gradd Sarsiant gyda'r Junior Leaders Royal Antellery.

Enillodd gwpan Captain John Coschen fel y milwr gorau allan o 350. Go dda Dylan. Yn ychwanegol i hyn enillodd Eiriadur Almaeneg am y disgybl gorau yn y dosbarth Almaeneg.

Bydd yn mynd i'r Almaen ar Hydref 29 i Dotsmund a bydd yno am flwyddyn neu ddwy. Bydd yn rhugl yn yr Almaeneg pan ddaw yn ôl i Gymru! Hwyl fawr i ti Dylan a phob bendith.

CLWB Y NEUADD: Hydref 31, Noson Calangaeaf, cynhelir noson i'r pentref yn Neuadd yr Eglwys. Ceir cystadlaethau, stondinau, gemau a chwaned o gawl poeth a thafell o fara. Pris fydd 30c i oedolion a phlant 10c wrth y drws. Drysau'n agored am 6.00 o'r gloch.

NOSON GUTO FFOWC: Tân Gwyllt yng Nghae'r Pentref am 6.30 p.m. Bydd lluniaeth ysgafn – ticedi gan Mrs Elisabeth Jones, 50c i oedolion, 30c i blant.

NOSON I'R GENOD: Cynhelir Bwffe yng Nghlwb Eryri ddydd Gwener, Tachwedd 22 am 8 o'r gloch – pris ticed yw £2. Bydd yr elw tuag at Neuadd Bentref. Cofiwch Noson i'r Merched yn unig ydyw.

DIOLCH: Dymuna Arwel Williams a Louise Cropper ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar ddathliad

eu dyweddïad.

GYRFAON CHWIST: Cynhelir y Gyrfaon Chwist canlynol – mis Tachwedd 1 a'r 15 ar nos Wener yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 p.m.

LLONGYFARCHIADAU: Yn Llundain ar Hydref 10 cyflwynwyd Diploma i Mr Alwyn Jones, Racca, gan Syr James Duncan. Enillodd Alwyn y Diploma am Brosiect a wnaeth i'r Gymdeithas Peirianwyr Cludiant Ffyrdd. Llongyfarchiadau calonog ichi.



Rhoddion

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£5 – Mrs H. Munro, Corby, Northants, Di-enw, Llanberis

£3 – Mr a Mrs H. Thomas, Gwenallt, Llanrug; Mrs Mary Jackson, 11 Maes Padarn, Llanberis

£2 – Bethan Pennant Jones, Bethel; Di-enw, Llanberis; Nia P. Jones, Minffordd, Llanberis; Arwel a Louise, Carrog, Waen, Penisarwaun; Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage, Dinorwig; Di-enw, Cwm y Glo; Eirlys Sharpe, Bethel

£1 – Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, 7 Porth y Gogledd, Deiniolen; Gwen Lloyd Roberts, Awel y Mynydd, Deiniolen; Mari, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mrs Elizabeth Pitts, 53 Dôl Elidir, Llanberis.

DIOLCH

Dymuna Helena Munro a'r teulu ddiolch o galon i ffrindiau a pherthnasau am y rhoddion hael ar achlysur y brofedigaeth o golli Dafydd Munro. Mae'r arian yn mynd at yr Apêl am Sganner.



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLEN

Ffôn:
LLANBERIS 870545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTS
GRIFFITH**
**Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Glan
Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
ARCHEBWCH EICH TEGANAU
AT Y NADOLIG, YN CYNWYS
BEICIAU BMX

Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul

Archebwch dros y ffôn – fe'i
danfonwn at eich drws

CREFFT·ELIDIR

STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau,
raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:**
crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP
FFYN A CHERRIG
STRYD FAWR, LLANBERIS

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

DIOLCHGARWCH – Dydd Sul, Hydref 13, cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Brynrefail. Cyfarfod y Plant a'r Bobl Ifanc a gafwyd yn y pŵn a chafwyd annerchiad gan y Gweinidog, y Parch John Morris. Diolchodd Mr Morris i'r plant a'r bobl ifanc am gymryd y cyfarfod a hefyd i'r athrawon, Miss Lowri P. Jones, a Mrs Carol Houston am eu hyfforddi hwy. Y Gweinidog a bregethodd yng Ngwasanaeth yr Hwyr.

BEDYDD – Yn ystod y Gwasanaeth yng Nghapel Brynrefail, Medi 29, fe feddyddiodd y Gweinidog, y Parch John Morris, Amy Lynn Lambert, geneth fach Ken a Bethan Lambert, Clwt y Bont.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU – Dosbarth Deiniolen. Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas eleni ddydd Sul Hydref 6 yn Ninorwig – cyfarfod y prynhawn yn Eglwys Dinorwig (MC) a chymanfa ganu'r hwyr yn Sardis, Eglwys y Bedyddwyr. Cynrychiolwyd Ysgol Sul Brynrefail yng nghyfarfod y prynhawn mewn datganiad o'r gân 'Diolch am y Gair' – y geiriau a'r gerddoriaeth gan Miss L.P. Roberts. Yn cymryd rhan yr oedd Alwen a Caron Jones, Meinir a Marian Jones, Eluned Roberts, Nicola Houston, Jacqueline, Glenda a Paula Walters,

Einir a Catrin Gwyn, Joanne, Maria ac Eira Wyn. Casglwyd y swm o £21.85 gan Caron Jones, Carol Houston, Joanne Evans a Jacqueline Walters a'i drosglwyddo ar ran Eglwys Brynrefail (MC) i Gronfa Cymdeithas y Beiblau.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cafwyd ymweliad â Gorsaf Drydan Dinorwig, dan arweiniad Mrs Val Davies. Dychwelodd y grŵp i'r ysgoldy i fwynhau lluniaeth a ddarparwyd gan Carol Houston ac Eirianwen Evans. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes ac fe'i enillwyd gan Mrs Hasson. Mae'r merched hefyd yn brysur ymarfer dau dîm dartiau at chwaraeon cynghrair Gogledd Cymru Sefydliad y Merched.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy, trefnwyd cwis rhaglenni teledu gan Jackie Jones a Helen Jones. Darparwyd y te gan Audrey Roberts a Sheila Williams. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes ac fe'i enillwyd gan Ann Parry.

Trefnwyd i ddarparu 'Lobsgows' ar gyfer y noson tân gwyllt.

Bydd y wibdaith flynyddol i siopau Caer ar Dachwedd 23 – cysylltwch â Mrs Helen Jones.

NOSON TÂN GWYLLT – Tachwedd 5 yn y cae chwarae. Diolchwn i bawb am gyfrannu mor hael at y casgliad a wnaethpwyd o ddrws i ddrws. Bydd

cyfle i ddiethriaid gyfrannu ar y noson – gobeithiwn y bydd hwyl a diogelwch yn un mor uchel ar y noson – croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Christine Ann Jones ar ddathlu ei 18 oed ar Hydref 16 – pob dymuniad da i'r dyfodol.

COFIWCH am y parti Nadolig yn Neuadd Henllys, Rhagfyr 20 – cysylltwch â Gwyn Mowl, Dafydd Ellis, Jackie Jones a Carol Houston.

CYFARFOD IEUENCTID – Nos Fawrth Hydref 1, yng Nghapel Brynrefail MC,

fe gafwyd cyfarfod arbennig i'r bobl ifanc. Y siaradwr gwadd oedd Miss Susan Rice Hughes, athrawes ifanc yn Ysgol Tryfan, Bangor. Cafwyd sgwrs ddiddorol, a bendithiol iawn ganddi, ar 'le Cerddoriaeth fodern yn addoliad yr Eglwys.' Roedd yn amlwg i'r bobl ifanc fwynhau eu hunain yng nghwmni Susan ac yn falch iawn o'r cyfle i ganu amryw o ganeuon modern Cristnogol. Diolchodd y gweinidog, y Parch John Morris, yn fawr i Miss Susan Hughes a gobeithir cael ei chwmni eto yn y dyfodol.

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

AETH y mis diwethaf heibio'n gyflym; yn rhy gyflym mae'n rhaid i unrhyw un wneud ymholiad ynglŷn â chwestiwn y mis. Doedd neb wedi cynnig ateb! Roedd amryw o aelodau'r dosbarth Hanes Lleol yn Llanrug yn cynnig gwahanol atebion, gan enwi capeli Llanberis i gyd bron, ac un yn cynnig mai Capel bach y Clegir oedd y cyntaf i drefnu trip Ysgol Sul ar y trê. Ond doedd yr un ohonynt yn gywir.

Y cofnod cynharaf y deuthum i ar ei draws ynglŷn â thrip Ysgol Sul ar drên oedd mewn traethawd ar hanes Ysgol Sul M.C. Llanrug gan 'Aelod o'r Ysgol' – buddugol mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Capel Llanrug yn 1936. Yn y traethawd mae'n sôn am drip i'r plant yn 1866.

"Yn y flwyddyn 1866 mi wnaeth William Jones, Clwt y Bont, gyntundeb gyda cwmni y rheilffordd i redeg excursion rhwng Bangor a Birkenhead, ac mi benderfynodd Ysgol Sul Llanrug ymuno. I gychwyn, y cwestiwn oedd; pa fodd i gludo y plant a phawb arall o Lanrug i Fangor, ac wedyn, yn y nos, o Fangor i Lanrug. Nid oedd yr adeg honno, yr un motor car, na dim o'r fath, ac ond ychydig iawn o gerbydau. Ond mi ddaeth Llanrug drwyddi yn lled ryfedd. I gario y plant lleiaf o Lanrug i Fangor ac yn ôl, mi gaed dwy drol, ac mi osodwyd planciau bychain ar draws y troliau, ac yna rhoddwyd y plant lleiaf ynddynt, ac yr oeddynt yn hynod o gyfforddus. Wedyn, aeth y rhan fwyaf gyda'r ceir gwyllt i ymyl y Felinheli, a cherdded oddi yno i Fangor, ac mi gerddodd y gweddill yr holl ffordd i Fangor. Yr oedd y trê i gychwyn tua 7.30 yn y bore, ac i gyrraedd yn ôl tua 10.00 yn y nos. Aeth pob peth heibio yn hwylus iawn, dim ond fod y trê ar ôl ei hamser yn cyrraedd yn ôl, ac erbyn i'r troliau gyrraedd Llanrug yr oedd rhwng hanner awr wedi hanner nos ac un o'r gloch y bore."

Felly, os cywir yw'r adroddiad uchod, roedd trip Ysgol Sul o Lanrug yn defnyddio trê cyn i'r

lein o Gaernarfon i Lanberis gael ei hadeiladu! Diddorol fyddai darganfod pwy oedd y William Jones hwnnw o Glwt y Bont a drefnodd yr excursion. Tybed a oedd rhai o ardalwyr Clwt y Bont ac Ebenezer hefyd ar y trip? Os oes rhywun ag unrhyw wybodaeth, cysylltwch â mi.

Cwestiwn mis Tachwedd

Beth yw'r cysylltiad rhwng Latrobe Street, Melbourne, Awstralia, â dau bentref ym mro'r 'Eco'?

Anfonwch eich atebion at Drefnydd y Gymdeithas, Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (Ffôn: Caernarfon 3515)

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon (870733)

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gwilym Searell Jones, Gwynant ar ddathlu eu priodas ruddem, a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

GWAELEDD – Dymunir gwellhad llwyr a buan i Mr Arthur Williams, Pennant sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn ysbyty Llandudno. Gobeithir ei weld adref yn fuan.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Gwilym Searell Jones ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion a dymuniadau da ar achlysur eu priodas ruddem.

DIOLCH – Dymuna Neil Price, Glyn Peris, ddiolch i bawb am yr anrhegion, y dymuniadau da a'r cardiau a dderbyniodd ar ddechreuad ei gwrs colegol.



I ddathlu Blwyddyn Ryngwladol Ieuencid mae aelodau'r Clwb wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer 'Scanner' Ysbyty Gwynedd. Y mae eu hymdrechion wedi codi cyfanswm o £89.41.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â


TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

**MERCHED,
DYNION, PLANT!**
I gael torri a thrin
eich gwallt
YN EICH CARTREF

cysylltwch â
**CHERYL
WARD**

Mobile Hairdressing
9 Porth Gogledd
DEINIOLLEN
Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser

ECO'R IFANC



Mrs Williams yn derbyn rhodd a dymuniadau gorau Mr Gwyn Mowl y prifathro.

Hen wraig fach mor annwyl
Yn gweithio mor dda
Mae'n ddynas reit gomic,
Mae ganddi jôcs da.
Gofalwraig yn byw yn ben lân
Tan-y-coed
"Llwynderw" fu enw ei bwthyn erioed.

Gweithio yn ddiwyd
Bob diwrnod yn deg,
Ar ôl noson goffi tan chwarter i ddeg.
Cerdded i fyni a'i chi bach gwyn.
Ar fore dydd Mercher, fe garia y bun.

Ond diwedd fu hanes y gweithio i gyd
A hithau'n dal i fyw yn ei bwthyn bach clyd.
Mrs Williams, ein ffrind, fe gofiwch erioed
Yr hwyl fawr a gawsoch yn ysgol Tan-coed.

DYFED WYN JONES
Safon 4

Dwy flynedd ar bymtheg
o hwyl a sbri
ond mae Mrs Williams yn ein gadael ni.
Rwy'n siwr fod dagrau yn croni yn ei llygaid.

Mae'n siwr nad anghofith ein hysgol ni.
Glanhawraig ardderchog dros ben oedd hi.

DYFAN EVANS
Safon 4

Mae Mrs Williams wedi glanhau ein hysgol ni ar ôl dwy flynedd ar bymtheg. Un dlos ydi hi gyda llygaid glas gloyw a gwallt cyrliog gwyn fel yr eira a gwên fawr ffeind bob amser. Un fach fel mam ydi ond mae nain a mam yn deud, "Mae popeth bach yn dlws." Tra fydd hi yn glanhau yr ysgol fel palas bydd Gwyn y ci bach yn cadw cwmpeini iddi. Un gwyn i gyd gyda dim smotyn du yw'r ci. Ond mae Mrs Williams yn ymddeol achos mae ei choes wedi cael dolur. Ta, ta, a lwc dda.

OSIAN DAFYDD
(9 oed)

FFARWELIO

Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ar bymtheg o wasanaeth fel gofalwraig, daeth yn amser i Mrs Williams ffarwelio â phlant ysgol Tan-y-Coed. Dyma ymateb rhai o'r plant fel gwerthfawrogiad o'i gwaith.

EIN MRS WILLIAMS ANNWYL NI

Bu Mrs Williams yn lanhau am ddwy flynedd ar bymtheg. Mae Mrs Williams yn fach gyda spectol ac mae yn annwyl a charedig ac yn wên i gyd. Mae ganddi llygaid glas fel môr a dannedd fel eira. Mae'n llau yr ysgol fel aur yn sgleinio ac yn y nos mae Gwyn yn ei chadw'n ddiogel rhag llygod mawr ffyrnig. Y mae Mr Williams yn dod i'r ysgol hefyd i gario pethau trwm. Diolch i Mrs Williams a Mr Williams a Gwyn a hwyl fawr.

RHIAN GREEN
(8 oed)

Glanhau ein hysgol ni yw Mrs Williams. Mae ganddi wallt gwyn. Byr ydy hi mae ganddi llygaid glas a dannedd gwyn fel marblis. Mae hi'n annwyl iawn a ffeind. Mae hi'n cadw'r ysgol fel pin mewn papur. Yn y nos mae Gwyn yn dod i gadw cwmni iddi. Diolch yn fawr iawn i chi Mrs Williams am gadw'r ysgol mor lân a'n gwneud ni'n hapus.

LOUISE JONES
(7 oed)

Mrs Williams y glanhawraig
Yn dod i lawr yr allt
I lanhau yr ysgol
Gyda'i phwced fach.

A pheidiwch ag anghofio Gwyn, y ci bach del
Sy'n helpu ei festres yn arbennig o swel.
Mae'r ysgol yn berffaith, yn dwt ac yn lân
Mrs Williams yw'r gorau - dyna yw ein cân.

Yn awr daeth yr amser ymddeol o'r swydd
Rhaid gadael yr ysgol ar ôl llawer mlwydd
Daeth amser rhoi heibio glanhau'r lle yn syth,
A rhoi ei mop bach gwlyb yn y gornel am byth.

MÓRRIGAN ELLIS
Safon 3

RHIFYN RHAGFYR

Deunydd i law erbyn

TACHWEDD 20

EDWARD ELIAS
GWÊN Y WAWR
LLANRUG

A hithau'n dymor Diolchgarwch, mae'n amlwg fod y gair bach pwysig hwnnw - DIOLCH yn cael rhan amlwg ar dudalen yr ifanc y tro yma. Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi cyfrannu i'r dudalen - daliwch ati.

COGYDDION YSGOL CWM-Y-GLO



Cogyddion Cwm-y-Glo yn arddangos eu dosbarthiadau.

Cafwyd syniad ardderchog gan ddisgyblion ysgol Cwm-y-Glo fel ymgyrch Diolchgarwch. Bu'r plant

wrthi'n ddyfal yn coginio pob math o ddanteithion. Ar ôl paratoi toman go lew trefnwyd arwerthiant cyhoeddus yn yr ysgol. Gwerthwyd bob briwsionyn a chasglwyd £40.

Penderfynwyd rhannu'r arian rhwng dau achos teilwng. Anfonwyd £15 i Gymdeithas Ryngwladol y deillion, sy'n cynnal clinigau yn Affrica yn bennaf. Dewiswyd rhoi'r gweddill (£25) i achos lleol, sef Cronfa Sganner Llanddaniel. Sefydlwyd y gronfa yma gan Ifan Morris - tad y Parch

Y Parch John Morris yn derbyn y rhodd. John Morris, Llanrug.

OLRHAIN HANES T. ROWLAND HUGHES



Bu plant safon 3 a 4 Ysgol Cwm-y-Glo yn ymweld ag Amgueddfa T. Rowland Hughes yn Llanberis yn ddiweddar. Mae'n amlwg fod y plant wedi ennyn diddordeb yng ngwaith y llenor, yn enwedig ar ôl gwyllo rhaglen deledu 'Hyn o Fyd' oedd yn olrhain hanes T. Rowland Hughes. Roedd cael tro o gwmpas Angorfa yn brofiad gwerthfawr.

MEDDAI BRYAN ROBSON...

ANELWCH
AT FOD
YN
OFALUS
GYDA
THÂN
GWYLLT



CADWCH NHW
MEWN BLWCH
WEDI'I GAU- NID
YN EICH POCED



DILYNWCH Y CYFARWYDDIADAU
AR BOB UN-DEFNYDDIWCH
FFLACHLAMP I WELD-NID MATSEN!



TANIWCH NHW
O HYD BRAICH
ASEFYLL YN ÔL
PEIDIWCH A
MYND YN ÔL
AT Y TÂN GWYLLT
UNWAITH Y
BYDDWCH WEDI
EI GYNNAU-FE
ALLECH GAEL
LLOND PEN!



MEDDYLIWCH
AM ERAILL
YN ENWEDIG
YR HEN A'R
IFANC IAWN.
PEIDIWCH BYTH
Â THAFLU TÂN
GWYLLT. CADWCH
ANIFEILIAID
ANWES YN
Y TY!



SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

PRIFATHRO'R NORMAL YN

YMWELD A'R YSGOL: Daeth Mr Ronald Williams, Prifathro'r Coleg Normal, Bangor i'r ysgol ar Hydref 10 i siarad â'r chweched dosbarth am golegau hyfforddi a'r cymwysterau. Diolch i Mr Fleming am drefnu'r ymweliad.

PARTI NADOLIG: Ar nos lau, Hydref 17 cynhaliwyd gweithgareddau nodedig i gasglu arian ar gyfer cynnal Parti Nadolig i ddisgyblion Ysgol Pendalar, Caernarfon. Diolch i bawb a fu mor garedig â nodd i'r disgyblion.

YMWELIAD MR JAMES CLARKE: Yn ystod y mis cafwyd ymweliad â'r ysgol gan Mr James Clarke, Cyfarwyddwr Coleg Ieuencid y Bala. Bydd yn dychwelyd yn ystod ail hanner y tymor i siarad â rhai o ddisgyblion yr ysgol.

GWOBRYWO: Yng Nghyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail, nos Fawrth, Hydref 15, penderfynwyd gwobrywo'r disgyblion canlynol:

SAFON 'A': Gwobr y Dr Lloyd Williams i'r bachgen a'r canlyniadau gorau - Peter Sharpe, Bethel. Cafodd Peter radd A mewn Mathemateg, Ffiseg a Chemeg.

Gwobr Mr I.L. James am Ffiseg - Harri Rheinallt Parry, Deiniolen - gradd B mewn Ffiseg.

Mae rhai disgyblion yn sefyll arholiad mewn Mathemateg Ychwanegol ac Ystadegau ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth. Penderfynwyd rhannu Gwobr Mrs Nell Owen am ganlyniadau Mathemateg rhwng Dewi Lewis, Deiniolen a Neil Wannop, Bethel. Cafodd y ddau radd 'A' mewn Mathemateg Ychwanegol ac Ystadegau.

Ychwanegwyd at werth ariannol y gwobrau uchod o Gronfa Mary Parry.

Rhoddwyd gwobrau i'r isod o Gronfa Mary Parry a Chronfa David a Jane Jones:

Safon 'O': Aila Heatherly, Kirsty McCann, Rhian Powell, Anna Wood, Vaughan Llywelyn Hughes, Rheon Iwan Larsen, Enid Price, Janet Elisabeth Hughes, Einir Wyn Lewis. Gareth Wyn Williams, Christopher Jones, Matthew Ingle, Louise Bernard, Jean Audrey Roberts, Ffion Eryl Jones, Sandra Griffith, Sharon Vaughan Williams.

T.A.U.: Fiona Lloyd Jones, Ann Vaughan Evans, Linda Morris, Kevin Jones, Colin Thomas.

YSGOL UNDYDD: Dydd Mawrth, Hydref 1af, aeth disgyblion o'r chweched dosbarth sydd yn astudio'r Gymraeg i Goleg y

Brifysgol ym Mangor am ddiwrnod. Cafwyd darlithoedd gan Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Y Dr Derec Llwyd Morgan, Branwen Jarvis, Yr Athro Gwyn Thomas a Dafydd Glyn Jones ar y llyfrau gosod.

Bu'r chweched dosbarth yn cystadlu hefyd, a thipyn o waith crafu pen gafodd y beirniaid yn dewis y goreuon. Bethan Jones, Llanberis gipiodd y wobr gyntaf, Manon Williams, Bethel yn ail ac Ann Vaughan Evans o Lanberis yn drydedd.

Diolch i'r holl ddisgyblion am gystadlu.

EISTEDDFOD LLANRUG: Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng nghystadlaethau llenyddol Eisteddfod Llanrug eleni. Y testun rhyddiaith ar gyfer blwyddyn 1 a 2 oedd 'Mae gen i freuddwyd'. Tasg anodd oedd dewis y goreuon meddai'r beirniaid, ond y pedwar a ddaeth i'r brig o'r deunaw oedd:

1. Lowri Williams, Llanrug; 2. Bryn Jones, Llanrug; 3. Mared Sutherland, Deiniolen a John Elwyn Jones, Llanrug.

Y testun rhyddiaith ar gyfer y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn eleni oedd 'Y Streic' - testun amserol iawn. Bu'r ymgeiswyr yn trafod streic y glowyr, streic fawr chwarel y Penrhyn, streic mewn ffatrïoedd a hefyd streic yr athrawon. Angharad Price o Fethel oedd yn gyntaf; Iona Pritchard, Llanrug yn ail a rhannwyd y drydedd wobr rhwng Rebecca Hughes, Llanrug; Elaine Lewis, Penisarwaun a Sioned Williams, Penisarwaun.

Yn y gystadleuaeth barddoniaeth i'r drydedd a'r bedwaredd flwyddyn ar y testun 'Bro' y buddugol oedd Sion Llwyd Elis, Llanrug, cipiwyd yr ail wobr gan Karen Jones, Llanrug; a rhannwyd y drydedd wobr rhwng Angharad Price, Bethel a Catrin Gwyn, Llanrug.

BRO

Nid oes na mynydd na môr

Yn amgylchynu'r llecyn,

Dim ond cae a rhostir

A chors.

Dirgel yw'r man y cwyd y ffrwd

Dirgel yw'r man y diflana i'r môr.

Ond rhwng y cae, y rhostir a'r gors

Bu'n Niagara, Mississippi a'r Nil i mi

Yma, ar ei glannau

Treuliais oriau fy mhientyndod

Yma, bwm yn ymladd 'Moby Dick'

A 'Jaws'; a hwylio ar fwrdd y 'Victory'

Ar donnau claeaf y ffrwd

Diflannodd fy mhientyndod

Ond erys y ffrwd, y cae, y rhostir

A'r gors.

Eiddo eraill ydynt bellach.

Rhith yn fy nghof yw llecyn fy mro.

SIÓN LLWYD ELIS

BRO

Hofran ar adenydd brau,
fry uwchben,
ar gopa coron Eryri.

Islaw'r traethau aurfelyn,
mae'r môr yn cyrrlio'n ffrilen wen,
yna'n ymestyn i'r gorwel pell.

Byddinoedd o forgrug,
yn sefyll yn stond yn eu caerau,
clytwaith o gaeau,
dan borffor y brynau.

Crisial clir,
dan gysgod Elidir,
ôl creithiau,
ar greigiau gwyn.
Yr hen chwarel wag
heb dinc yr ebill a'r cŷn.

Hir, bwm yn craffu ar ryfeddodau fy mro,
cyn troi ar fy adain,
a hedeg i ffrwd.

KAREN JONES

NOSON ROC YR WYL WERIN

(Adolygiad Einir Parri)

Yn ystod penwythnos cyntaf mis Hydref eleni, cafwyd yr Wyl Werin flynyddol yng Nghaernarfon. Ar y dydd Sadwrn cafwyd dawnio gwerin hyd strydoedd y dref, a thwmpath dawnio yn y nos. Ond, yn sicr, uchafbwynt yr ŵyl i ieuencid yr ardal oedd y nos Wener, pryd y cafwyd noson roc. Y grwpiau eleni oedd Chwyldro, Dinas Naw a'r Brodyr. Roedd y neuadd yn llawn, gydag ieuencid wedi heidio yno o mor bell â'r Wyddgrug ac Ysgol y Creuddyn, Llandudno.

Dechreuodd y noson gyda Chwyldro - grŵp ifanc addawol iawn o Gaernarfon. Mae'r grŵp yma yn datblygu'n grŵp poblogaidd iawn, ac maent yn sicr yn uchel iawn ar y rhestr o'm harwyr i. Ar ôl dwy gân roedd y gynulleidfa wedi deffro drwyddi, ac yn dawnio'n wyllt i'w caneuon. Roedd caneuon fel 'Bwystfil' a 'Mab y Bwthyn' yn tueddu i fod yn fwy poblogaidd. Ar ôl chwarae eu set bu'n rhaid iddynt ddod yn ôl unwaith eto.

Erbyn i 'Dinas Naw' ymddangos, roedd y gynulleidfa wedi mynd i hwyl y noson. Roedd Ian Gill, y canwr, yn gwybod yn union sut i ennyn diddordeb a chael y gynulleidfa i ymuno yn set y grŵp. Erbyn diwedd eu perfformiad roedd lleisiau pawb yn groch. Cyn y noson, nid oeddwn wedi sylweddoli pa mor dda oedd Dinas Naw, ond yn sicr credaf mai nhw yw un o'r

grwpiau gorau yng Nghymru ar gyfer noson dda - maent yn deffro'r gynulleidfa ac yn eu denu i ymuno yn y canu.

Uchafbwynt y noson oedd Y Brodyr, sydd wedi datblygu o nerth i nerth i fod o'r un safon â grwpiau fel Maffia. Er gwaethaf y drasiedi ddychrynlyd gyda marwolaeth Huw Huws - canwr y grŵp, rwyf yn falch iawn o ddweud eu bod yn dal i berfformio'n gyson a gwella'u caneuon. Y Brodyr a enillodd y wobr am y caset-sengl orau'r flwyddyn gyda 'Syched' yn Noson Wobryw Sgrech eleni. Ond, ers hynny, gyda rhyddhau eu sengl gyntaf, daeth cam pendant ymlaen o'r tîp blaenorol. Maent wedi perffeithio eu sŵn arbennig eu hunain - nes ei fod yn byrlymu o'r llwyfan. Roeddent yn chwarae eu caneuon poblogaidd fel 'Draws Donau' a 'Lleisiau mewn Anialwch', yn ogystal â'u caneuon cyffrous diweddaraf.

Yn anffodus, roedd yn rhaid i'r noson orffen am hanner awr wedi deg; buasai pawb wedi bod yn fwy na bodlon gwrandio arnynt am awr arall. Mae angen llawer mwy o nosweithiau roc Cymraeg yn ein hardal ni, ac rwyf yn sicr nad fi yw'r unig un sy'n edrych ymlaen at noson o'r fath y flwyddyn nesaf.



Rhai o wynebaw llawen y fro yn mwynhau naws y Noson Roc.

M. ROWLANDS

MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deul

D

L

PRITCHARD

43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Hydref ein wraig wadd oedd Ms Karen Thomas o'r 'Body Talk Salon', Stryd y Farchnad, Caernarfon. Croesawyd hi'n gynnes iawn gan ein llywydd, Mrs Bethanne Williams, a perswadiwyd Mrs Nan Humphreys i eistedd yng nghadair y 'model'.

Pleser oedd gwyllo Karen yn arddangos y gelfyddyd o goluro. Mae ganddi ffordd gartrefol braf o gyflwyno ei neges a chafwyd ambelli gyngor buddiol ar y modd i gadw'r croen yn ddeniadol.

Croesawyd Mrs M. Evans, Lloc yn ôl atom ar ôl ei gwaeledd. Da oedd ei gweld yn ddigon iach i droi allan ar noson mor oer a gwlyb.

Darllenwyd llythyrau oddi wrth nifer o fudiadau a'u trafod. Cytunwyd ein bod yn cefnogi Canolfan Trin Cancr yn Ysbyty Gwynedd. Daeth llythyr apêl am gyfraniad i adnewyddu Hen Gapel John Huws Pont Robert sydd yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg. Trefnwyd i drafod y mater ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Awgrymodd y llywydd fod yr aelodau yn meddwl am syniadau i godi arian. Diolchodd y llywydd i'r aelodau fu'n casglu at yr henoed. Eleni roedd y casgliad yn llai na'r llynedd a hynny yn bennaf oherwydd prinder gwirfoddolwyr i gasglu. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £39.14. Derbyniwyd gair gan drefnydd Gŵyl Werin Caernarfon, yn diolch am wasanaeth y Mudiad yn helpu gyda'r bwyd.

Ar wahoddiad Mr Twrog Jones cymerwyd rhan yn y ddefod o goroni'r bardd yn Eisteddfod Gadeiriol Llanrug; Mrs Gwenda Roberts a Mrs N. Humphreys yn cyrchu'r bardd, Mrs N. Lovatt a Mrs Whiteside Thomas yn ei gyfarch; Mrs Menna Williams yn canu Cân y Coroni gyda Mrs Megan Roberts yn cyfeilio ar y delyn.

Terfynwyd y noson gyda phaned wedi ei threfnu gan y Dr Eirwen Gwynn, Mrs R. Thomas, Mrs Megan Roberts a Mrs Olwen Llywelyn. Enillydd y raffl oedd Mrs Joan Griffith. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Owenna Elias. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 12 gyda sgwrs gan Mr Aled Eames ar 'Llongau Caernarfon'.

DIOLCH: Dymuna Louise ac Arwel ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad.

LLONGYFARCHIADAU: cynnes i Richard, Prysgol ar ei lwyddiant yn ennill cwpan amaethyddiaeth yng Ngholeg Glynllifon yn yr haf.

Yn dilyn y llwyddiant hwn mae'n awr yn cychwyn ar gwrs ychwanegol yng Ngholeg Amaeth Aberystwyth. Dymunwn iddo bob llwyddiant yn y dyfodol.

PRIODAS: Ar Hydref 19 priodwyd John Martin, Fair Haven â Sara Raines, Caergrawnt yng Nghaerdydd. Dymunwn iddynt bob hapusrwydd.

PRIODAS - Yn Eglwys Santes Catherine, Treganna, Caerdydd, ar Hydref 12 a'r Parch Hugh Allen yn gweinyddu, priodwyd Gwyneth Thomas, merch Mr a Mrs H. Thomas, Gwenallt, Llanrug a Dr Peter Llewelyn Davies, mab Mr a Mrs W. Davies, Park House, Abergavenny. Y gwas oedd David Thomas a'r forwyn oedd Ann Thomas. Mae'r parifancyn ymgartrefu yn 45 Victoria St, Abergavenny.



DIOLCH - Dymuna Gwyneth a Peter ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Nos Fawrth y 15fed gyda'r Parch John Morris BD yn llywyddu, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Dafydd Whiteside Thomas, a siaradodd ar hanes cychwyn y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis. Talwyd diolch iddo gan Mrs J.L.I. Williams, Bod Fair.

DIOLCHGARWCH - Bore Sul yr 20fed caed gwasanaeth o Ddiolchgarwch gan blant Eglwys Pontrhythallt, wedi eu hyfforddi gan athrawon yr Ysgol Sul. Caed anerchiad gan y gweinidog, y Parch John Morris. Y cyfeilydd oedd Mrs Mair Huws, Cilmeri.

Wedyn, cafwyd ordinhad o feddyd pryd y bedyddiwyd Barry Wyn, plentyn Cynthia a Gareth Roberts, Bro Rhyddallt.

CYFARFOD Y CHWIORYDD - Cynhaliwyd cyfarfod chwiorydd Pontrhythallt brynhawn lau y 17eg, pryd y cafwyd sgwrs ar Ferched y

Beibl gan Mrs M.L.I. Williams, Llys Awen. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Bod Fair, gyda Mrs B. Williams, Glan Padarn yn cymryd y rhan arweiniol. Rhoddwyd y te gan Mrs Ceri Williams, Hafan Elan, a Mrs Annie Parry, Bryn Coch, a thalwyd diolch i'r gwsteion a'r siaradwraig gan Mrs M. Jones, Bronwylfa. Cynhelir paned a Byrddau Gwerthu yn y Ffestri am 7 nos Wener Tachwedd 8. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw rodd o nwyddau neu arian gan y chwiorydd.

CEFNOGAETH - Dymuna Mr Barry Creek, rheolwr Canolfan Segontium, ddiolch o galon i'r holl bentrefwyr a gefnogodd Len Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ar daith nodedig yn ddiweddar, i gasglu arian at y Ganolfan. Cafodd Len gyfanswm o £44.10 a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio at gostau gwyliau i'r hyfforddolion yn y flwyddyn newydd.

CINIO BLYNYDDOL PENSIYNWYR LLANRUG

Mae Pwyllgor Carnifal Llanrug yn estyn gwahoddiad i bensiynwyr Llanrug a Than-y-coed i ginio blynyddol ar nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd yn yr ysgol gynradd am 7 o'r gloch. Os am dderbyn y gwahoddiad a fyddwch cystal a rhoi eich enw ar y llyfr yn swyddfa'r post.

DIOLCH - Y mis hwn ffarweliwn â Mrs Eirlys Pierce fel gohebydd newyddion pentref Llanrug. Bu'n gwneud y gwaith yn rheolaidd ers bron iawn y cychwyn cyntaf, a gall y gwahanol olygyddion newyddion pentref dystio i'w gwaith trylwyr dros y blynyddoedd. Dymunwn yn dda i'w holnydd yn y gwaith, sef Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont.

Cofiwch am PARADWYS FFŴL

Theatr Bara Caws
yn Ysgol Brynrefail
nos Lun Tachwedd 4
am 7.30

AR WERTH

Dwy gadair esmwyth a bwrdd
coffi (gweddu i'w gilydd)
Ffoniwch; Caernarfon 4839

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



DATHLU PRIODAS AUR



Llongyfarchion i Mr a Mrs Cecil Williams, 19 Hafan Elan ar ddathlu eu priodas aur, Hydref 14. Dyma benillion iddynt gan rai o'u cyfeillion.

Un iawn am sws yw Cecil,
Medd Dilys fwyn ei wraig,
A gwir bob gair yw hynny
Am hogiau glew y graig;
Cwrddasom yma heno,
Yn gwmni hapus llon,
I ddathlu hanner canrif,
Ym myd y fodrwy gron.

Boed bendith ar y dathlu,
Yn awr ar hwyrnos oes,
A llawer blwyddyn eto,
Heb unrhyw awel groes;
A hwyrach stori arall
Am samon mwya'r sir,
Mae stori pob pysgotwr,
Yn stori fawr a hir.

Bûm yn ei gwmni ganwaith,
Yn twyllo'r brithyll man,
Am gyrion hen y Marddwr,
Wrth odreu Carreg Frân;
Mor hapus oedd y dyddiau,
Ymhlith pysgotwyr bro,
'Rhen Phillips, Llew, ac Arthur,
Genweirwyr Cwm y Glo.

I'r ddau fu'n cywir garu,
Boed dymuniadau llon,
Ar ddathlu hanner canrif
Ym myd y fodrwy gron;
Fe drefnwyd gwledd i'w chofio,
Danteithion rif y gwllith,
A Ces yr hen chwarelwr mad,
Yn frenin yn eu plith.
JOHN DAVID EVANS (Joni Iard)

Mae Dilys a Cec yn annwyl iawn
Gyda gŵen ar eu hwyneb, bob bore a nawn,
Ond mae'n dda WEITHIA fod Cec ddim yn clywad,
Neu mi fasa'n i heglu hi i fyw ar y lleuad.
Bardd Cocos
Nell Hughes, 24 Hafan Elan.


DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs Cecil Williams ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu hanrhegion a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu eu priodas aur. Diolch yn arbennig i Mrs Dilys Jones, warden Hafan Elan.

PRIODAS RUDEM - Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Richard Evans, Afon Rhos, ar ddathlu priodas ruddem yn ddiweddar. Nos Sadwrn, Hydref 19, roedd y ddau yn meddwl eu bod am gael pryd o fwyd gyda'r teulu mewn gwesty lleol. Ond roedd syrpreis wedi ei threfnu ar eu cyfer! Pan alwasant yn Glan Gwna, Caeathro, ar eu ffordd, yno yn aros amdanynt roedd dros gant o deulu a ffrindiau, rhai ohonynt o'r Alban a Llundain. Roedd hi hefyd yn digwydd bod yn benblwydd ar Mr Evans. Ac nid dyna'r cyfan. Cafodd Mr Evans, sy'n gweithio i'r mab a drefnodd hyn i gyd, wythnos o wyliau i fwynhau ei hun gyda'r teulu a'r cyfeillion oedd wedi teithio mor bell i gyd-ddathlu ag o a'i wraig.

CLWB CANT - Enillwyr Hydref - 1 Terry Jones 2 Dr Eirwen Gwynn 3 Deiniol Evans.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

**GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800**

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?**

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**

EISTEDDFOD LLANRUG

CADEIRIO'R BARDD

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanrug ddydd Sadwrn Hydref 12, yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Mr Walter Glyn Davies, Amlwch oedd y beirniad cerdd, a Mr Selwyn Griffith, Bethel oedd y beirniad adrodd, llên a barddoniaeth, gyda Mrs Annette Bryn Parri fel cyfeilyddes.

Cafwyd diwrnod llawn o gystadlu o safon uchel iawn, gyda Mr Davies yn canmol safon y cystadlaethau offerynnol yn arbennig.

Y bardd cadeiriol oedd Mr R.O. Hughes, Llanfyllin, Powys, sydd yn enedigol o Bwllheli, ond erbyn hyn yn athro Daearyddiaeth yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Nid oes ond 5 mlynedd ers iddo ddechrau ymddiddori yn y canu caeth. Testun ei gerdd oedd 'Y Proffwyd' - ac ysgrifennodd am Martin Luther King.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd. Dyma'r canlyniadau:

ARLUNIO

Ysgol Feithrin - Dosbarth Meithrin 1 Elgan Elias 2 Katy Evans 3 Liam Williams **Dosbarth Derbyn** 1 Catrin Grinvalds 2 Sarah Thomas 3 Iona Yandell Williams **Dosbarth Babanod Canol ac Uchaf** 1 Rhian Medi Green 2 Fiona Jennings, Gareth Hughes 3 Dawn Pritchard **Safon 1 a 2** 1 Michael Colborn 2 Hayley Roberts 3 Sera Thomas **Safon 3 a 4** 1 David Morris, Alan Hughes 2 Rhys Llwyd Elis, Michael Jones 3 Simon Murphy **Blwyddyn 1 a 2 Ysgol Uwchradd** 1 Rhodri ap Llwyd 2 Bryn Cerion Jones 3 Dafydd Roberts **Blwyddyn 3 a 4** 1 Dylan Fôn Huws Agored 1 2 a 3 Clifford Williams

TRI DIMENSIWN

Dan 8 1 Carwyn Machno, Llŷr Roberts, Iwan Griffith 2 Owain Machno, Iwan Llywelyn Grinvalds, Sioned Mair Jones 3 Matthew Williams, Ieuan Green, Luned Mair Jones, Rhian Green **Dan 12** 1 Gethin Parry 2 Mark Wyn Jones 3 Iola Non Thomas **Dan 16** Bryn Cerion Jones

COGNIO

Dan 10 1 Wendi Thomas 2 Rosalind Allam 3 Sera Thomas **Dan 12** oed 1 Lowri Angharad Roberts 2 Dyfed Whiteside Thomas 3 John Elwyn Jones **Dan 16** oed 1 Gwenno Parri 2 Gwenno Parri 3 Bethan Parry **Agored** 1 a 2 Bethanne Williams

GWNIO

Dan 8 1 Nicola Gibbins **Dan 10** 1 Nia Griffith 2 Donna Roberts **Agored** Mrs J M Jones 2 Miss Ann Humphreys 3 Mrs Megan Pritchard

GWAU NEU GROSIO AGORED

1 Mrs Ann Lloyd Griffith 2 Mrs Eirianwen Thomas 3 Mrs Megan Pritchard

FFOTOGRAFFIAETH

Dan 16 1 Rhodri ap Llwyd 2 Leri Gwenan Agored 1 Islwyn Roberts 2 R E Griffith, Islwyn Roberts 3 Timothy John, R E Griffith

GWIN AGORED

1 Mrs Bethanne Williams 2 Mrs Margaret V Parry 3 Mrs Bethanne Williams

GOSOD BLODAU AGORED

1 Mrs Valmai Bernard 2 a 3 Mrs Mai Davies

RHYDDIAITH

Safon 1 a 2 1 Dylan Lloyd Jones 2 Siwan Humphreys, Delyth Morris 3 Iwan Rhys Parry, Caroline Jones, Matthew Williams **Safon 3 a 4** 1 Aled Roberts 2 Catrin Thomas, Nia Gwawr Jones 3 Elen Wyn Parry **Ysgol Uwchradd Blwyddyn 1 a 2** 1 Lowri Williams 2 Bryn Cerion Jones 3 Mared Sutherland, John Elwyn Jones **Blwyddyn 3 a 4** Angharad Preis 2 Iona Pritchard 3 Sioned Williams, Rebecca Hughes, Elaine Lewis **Blwyddyn 5, 6 a 7** 1 Bethan Jones 2 Manon Williams 3 Ann Evans

STORI FER AGORED

1 Mrs Nant Roberts, Llanrug 2 Cydradd Mrs

M G Williams, Bethel.

STORI DDIGRI AGORED

1 Mr Robert Williams, Llanrug 2 Mrs Helen Royle Edwards, Bontnewydd 3 Mrs Iola Butler, Tanycoed

BARDDONIAETH

Safon 1 a 2 1 Iwan Rhys Parry **Safon 3 a 4** 1 Lois Pritchard 2 Alan Hughes 3 Lowri Angharad Roberts, Mark Jeffs, Rhys Llwyd Elis **Ysgol Uwchradd Blwyddyn 3 a 4** 1 Sion Llwyd Elis 2 'Mod' 3 Catrin Gwyn, Angharad Preis

CYSTADLEUAETH Y GADAIR

Mr R O Hughes, Llanfyllin, Powys

TELYNEG AGORED

1 Mr Howell Parry, Caergybi

LIMRIG, AGORED

1 Mrs Iola Butler, Tanycoed

CYSTADLAETHAU LLWYFAN

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Unawd Dosbarth Meithrin a derbyn 1 Meilir Jones 2 Gerallt Hughes 3 Martin Morris 4 Kelly Roberts **Adrodd Dosbarth Meithrin a Derbyn** 1 Michelle Roberts 2 Gerallt Hughes 3 Awen Humphreys **Unawd cyn oedran ysgol** 1 Sian Green 2 Guto Humphreys, Elin Owen 3 Iolo Roberts **Adrodd cyn oedran ysgol** 1 Elin Owen, Iolo Roberts, Sian Green **Unawd Babanod canol ac uchaf** 1 Christopher Pritchard 2 Gareth Jones 3 Iwan Griffith **Adrodd Babanod Canol ac Uchaf** 1 Rhian Green 2 Iwan Griffith 3 Gareth Jones **Unawd Safon 1 a 2** 1 Sera Thomas 2 Delyth Morris 3 Lynne Schudlak **Adrodd Safon 1 a 2** 1 Siwan Humphreys 2 Catrin Hughes 3 Llŷr Sion Roberts, Catherine Griffith, Nicola Gibbins **Unawd Cerdd Dant** 1 Ffion Orwig Thomas 2 Gwenan Mair Roberts **Adrodd Safon 3 a 4** 1 Ffion Orwig Thomas 2 Nia Griffith 3 Tammy Jones **Unawd Piano dan 12** oed 1 Gwenan Mair Roberts 2 Ffion Orwig Thomas 3 Lowri Angharad Roberts

Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres, piano a recorder dan 12 1 Gwenan Mair Roberts 2 Lowri Angharad Roberts, Tammy Jones 3 Llŷr Sion Roberts, Lowri Williams **Unawd Safon 3 a 4** 1 Ffion Orwig Thomas 2 Gwenan Mair Roberts 3 Nia Griffith **Unawd offeryn pres dan 12** 1 Arwyn Roberts 2 Gethin Parry 3 Dyfed Thomas **Parti Cyd-adrodd dan 12** Parti'r Bont Parti Unsain dan 12 1 Parti Elen Wyn 2 Parti Bryn ac Alan 3 Parti Iwan Llywelyn

CYFARFOD YR HWYR

Unawd dan 16 Glenys Hughes, Llanddodged 2 Magwen Griffith, Tregarth 3 Alison Edwards (Llanberis), Raymond Williams, Talysarn **Adrodd dan 16** 1 Enfys Medi, Penrhoslligwy 2 Carys Elis Jones, Y Ffôn, Raymond Williams, Talysarn 3 Nia Glyn Davies, Deiniolen **Deuawd dan 16** 1 Beryl a Carys, Y Ffôn **Unawd Piano dan 16** 1 Alison Edwards, Llanberis 2 Manon Evans, Llanrug 3 Enfys Medi, Penrhoslligwy a Carys Elis Jones, Y Ffôn **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw piano dan 16** 1 David Jacobs, Llanrug a Glenys Hughes, Llanddodged 2 Sian Wyn Jones, Llanrug 3 Suzanne Jacobs, Llanrug **Unawd 16-21** 1 John Trevor Williams, Bodffordd **Unawd Cerdd Dant dan 16** 1 Ffion Williams, Llanrug 2 Beryl Jones, Y Ffôn, Glenys Hughes, Llanddodged 3 Alison Edwards, Llanberis **Cân Werin Agored** 1 Raymond Williams, Talysarn 2 Rupert Williams 3 Glenys Hughes, Llanddodged **Unawd ar unrhyw offeryn dros 16** 1 Gwyrfa Williams, Llanberis 2 Berwyn Owen, Llanrug **Wythawd** 1 Parti Bethel 2 Wyth yn y Bar **Eryn dros 50** 1 Eirlys Thomas, Dolgellau 2 Alun Williams (Mabon), Waunfawr 3 Wmffra Jones, Betws Garmon **Unawd Cerdd Dant dros 16** 1 George Baum, Y Ffôn **Prif Adroddiad** 1 Meiriona Williams, Eglwysbach 2 Myra Turner, Waunfawr 3 Myfanwy Wyn Roberts, Llangefni **Prif Unawd** 1 Clarence Jones, Llanddaniel 2 Hefin Jones, Waunfawr 3 Wmffra Jones, Betws Garmon.




Selwyn Griffith, y beirniad llên ac adrodd yn traddodi ei feirniadaeth yn ystod defod y cadeirio. Selwyn hefyd a lywiodd y seremoni. Cynrychiolwyd o gangen Merched y Wawr, Llanrug oedd y gorseddogion. Offrymwyd y weddi gan y Parch John Morris, a Gwyn Meirion oedd yn canu'r corn gwlad.



Golwg agosach ar y bardd, Mr R.O. Hughes, Llanfyllin, Powys.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



BECWS
DEINIOLLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLYFRAU NEWYDD CYMRAEG

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Perfedd Hen Nain Llewelyn - Hafina Clwyd.

Gwasg Gwynedd £2.50

Casgliad o ysgrifau amrywiol.

Cariadon - Irma Chilton (gol.)

Urdd Gobaith Cymru £2.25.

Casgliad o storïau caru i bobl ifainc.

Dyddiadur Mari Gwyn - Rhiannon Davies Jones

Gwasg Gomer £5.00

Nofel wedi'i lleoli yn Llŷn yn ystod

teyrnasiad Elisabeth I, pan erlidid y

Pabyddion am ddal at eu ffydd.

Hel Dail Gwyrdd - Menna Elfyn (Gol.)

Gwasg Gomer £3.25

Blodeugerdd o gerddi gan ferched.

Cyn daw'r gaeaf - Meg Elis

Gwasg Gomer dros Lys yr Eisteddfod. £1.95.

Dyddiadur buddugol cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod

Genedlaethol y Rhyl a'r Cyffiniau 1985.

Credaf - Gwyn Erfyl (gol.)

Hughes £2.95

Cyrol ar y sgysiau teledu wedi'u seilio ar y gyfres Credaf.

Bro'r Eisteddfod 5: Y Rhyl a'r Cyffiniau - Desmond H. Healy (Gol.)

Llyfrau'r Dryw £3.95

Y pumed llyfr yn y gyfres yn cynnwys erthyglau yn ymdrin â gwahanol agweddau ar hanes bro'r

Eisteddfod.

Blodeugerdd Bro Ddyfi - Cyril Jones (gol.)

Cyhoeddiadau Barddas £2.75

Casgliad o gerddi gan dros ddeugain o feirdd Bro Ddyfi.

Atgofion am y Wladfa - Valmai Jones.

Valmai Jones £3.50

Atgofion yr awdur am y blynyddoedd a dreuliodd yn y Wladfa.

Ffransis o Assisi 1182-1226: Sant yr Oesau - John Owen.

Gwasg Pantycelyn £2.00.

Hanes bywyd Ffransis o Assisi.

Crwth y Pysgotwr - Norman Closs Parry.

Gwasg Gomer £3.95

Cyrol o ysgrifau a rhai cerddi gyda gwybodaeth fanwl am adar, pysgod a cherdded cefn gwlad.

Blodau'r Gwrych - Lynn Prydderch a Twm Elias

Gwasg Dwyfor £3.50

Y cyntaf mewn cyfres o lyfrau gwreiddiol ar blanhigion.

Ha Bach - Eigra Lewis Roberts

Gwasg Gomer £3.95

Y nofel ddiweddaraf am bentref a thrigolion Minafon.

Cyflwyniad i Astudio'r Iaith Gymraeg - D.A. Thorne.

Gwasg Prifysgol Cymru £9.95

Cyrol yn cyflwyno rhai agweddau ar astudiaethau ieithyddol i fyfyrwyr.

LLYTHYR ANN ARKISST

Fel yr eglurwyd yn y rhifyn diwethaf, yn dilyn apêl am gyfraniadau gan y darllenwyr, cynigiodd Ann Arkisst sgwennu llythyr achlysurol ar ei hargraffiadau hi o fro'r 'Eco'. Clywsom am sgysiau mewn aml i bentref yn y fro yn dilyn ei llith y mis diwethaf ynglŷn â gwisg ysgol ac er bod rhai yn cytuno ac eraill yn wfftio, doedd neb yn ddigon dewr i sgwennu atom i gefnogi Ann na chwaith i anghydweld â hi. Y mis hwn, 'Cwn' yw testun ei llythyr, a chroesawn unrhyw ymateb iddo yn rhifyn mis Rhagfyr. Unwaith eto, carem eich atgoffa mai wedi dysgu Cymraeg y mae Ann, ac mai diweddar iawn fu ei hymdrechion i geisio sgwennu yn yr iaith. Gofynnwn ar i chwi felly fod yn amyneddgar o'i chystrawen. Mae Ann hithau'n awyddus i fwy o bobl yr ardal fynnu siarad Cymraeg â hi, felly os dowch i gyfarfod â hi ar eich hynt yn ystod y mis nesaf, cofiwch roi hwb a chefnogaeth iddi.

Annwyl ddarllenwyr yr Eco Wyddfa,

Y mae fi yn balch iawn o cael ysgrifennu at chwi eto y mis hwn. Diolch yn fawr i golygydd y papur am rhoi ei caniatad i fi i sgwennu. Y mis diwethaf yw y tro cyntaf i mi cael gweld fy ysgrifennu Cymraeg mewn print am y tro cyntaf. Mae yn rhoi 'thrill' mawr i mi.

Rydwi am sgwennu y mis hwn am cwn. Dydw i ddim yn hoffi cwn. Mae cwn yn pethau budr ac afiach. Mae llawer o bobl yr ardal yn cadw cwn. Mae cwn rhai o'r bobl yn cael llawer o sylw. Mae rhai cwn yn cael mwy o sylw na plant! Mae cwn pobl arall yn cerdded o gwmpas y strydoedd y pentref. Mae cwn y pobl yma yn cyfarth a gwneud swm. Mae nhw yn baeddu ar hyd ochr y lon ac yn baeddu yn gardd y tai. Ach y fi! Dydi neb yn poeni am hyn? Rydw i yn poeni am hyn. Rydw i wedi rhoi fy nhröed yn ei baeddu nhw. Mae hynny yn peth budr iawn ac afiach. Rhaid cael 'crusade' i cael gwared o

cwn. Rhaid cael gwared o cwn oddi ar y stryd. Mae y Llywodraeth wedi meddwl talu trwydded cwn yn bumpunt. Mae eisiau wneud trwydded cwn yn ugain punt! Os pe trwydded cwn yn ugain punt, byddai llawer o bobl yn methu prynu un, ac felly, byddai dim cwn ganddynt. Chwi dweud llawer o bobl ddim yn prynu trwydded? Os dim trwydded ganddynt, yna lladd eu cwn. Rhaid cael Llywodraeth i gwneud hawl i lladd pob cwn sydd heb trwydded. Yna, ni cael gwared o cwn budr ac afiach o pob strydoedd y pentrefi.

Fi yn meddwl cael bathodyn Cymraeg a Saesneg i pawb sydd dim yn hoffi cwn fel fi. Rhaid sgwennu 'Kill the Cwn' ar y bathodyn. Mae hwn yn pennawd slyc ydi? Os chwi cytuno gyda fi, Ann Arkisst, yna chwi cael y bathodyn cyn y Nadolig. Gwnewch chwi sgwennu i 'Eco Wyddfa' i ddweud bod chwi yn cefnogi Ann Arkisst yn erbyn y cwn budr ac afiach.

GLYWSOCH CHI HON?

'A pham y daethoch chwi i le fel hyn?' gofynnodd ymwelydd i un o'r carcharorion a oedd o leiaf yn 70 oed.

'Ieuencid dibrofiad' atebodd y carcharor.

'Wel wir, dydi hyn fawr o reswm,' oedd ymateb yr ymwelydd, 'a chitha' bellach mewn gwith o oedran.'

'Rydwi'n siarad am y creadur oedd yn ceisio f'amddiffyn,' meddai'r carcharor.

Roedd anturiaethwr yn gyrru Land Rover ar draws diffeithdir Sahara. Daeth i gyfarfod â Bedouin yn marchogaeth camel.

'Esgusodwch fi,' meddai, 'ond tybed a fedrwydd ddweud wrthyf sut i gyrraedd Gwerddon Siwa?'

'Siwr iawn,' atebodd y Bedouin, 'syth yn eich blaen a throi i'r dde ddydd Mercher.'

'Rydach chi'n edrach yn union fel fy nhrydydd gŵr,' meddai'r ferch flodeuog mewn parti.

'A sawl gŵr fu ganddoch chi?' holodd y dyn.

'Dau,' meddai hithau.

Beth am ddod i gystadlu i Eisteddfod Dyffryn Ogwen?
Manylion: Emlyn Jones, Y.H., Bethesda 600846
Neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, nos Wener, Tachwedd 8 am 6.30 a dydd Sadwrn, Tachwedd 9, 12.30 a 6. Lluniaeth ysgafn yn yr Ysgol bnawn Sadwrn.

Cadwch y dyddiad Sadwrn, Ionawr 25
NOSON DWYNWEN
Neuadd John Phillips, Bangor
Elw at Eisteddfod yr Urdd 1986

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

O BANTRI BETH



PIZZA SYDYN

200 grm Blawd Codi

hanner llond llwy de o halen

50 grm o fenyn neu fargarin

125 ml o lefrith

Cymysgwch y blawd a'r halen mewn powlen fawr. Ychwanegwch y menyfyn a'i rwbio nes bydd yn friwsion bras. Ychwanegu llefrith fesul ychydig nes gwneud pelen o

does. Ei droi allan ar y bwrdd a'i lefelu yn un wadn gron neu'n bedair o rai bach.

Y Blasusfwyd!

Un nionyn mawr wedi ei falu'n fân

25 grm o fenyn

Tun 400 grm o domatos

Hanner llond llwy de o berlysiau cymysg (mixed herbs)

175 grm o gaws

2 sgleisen o gig moch

Ffrïo'r cig moch a'r nionyn efo halen a 'herbs'. Tynnu'r sudd o'r tomatos. Rhoi'r cymysgedd o domatos ar ben y 'pizza'. Gratio'r caws dros y cyfan a'i goginio am 20 munud neu fwy mewn popty - gwres rhyw 300 gradd F.

Bendigedig o flasus efo salad gwyrdd; a gwydriad o win coch.

Sylwer - Mae Beth yn defnyddio mesuriadau metric o'r diwedd. Mae'r 'Eco' yn falch o gadw i fyny â'r newidiadau diweddaraf ym myd coginio!

YN EISIAU

Gohebydd Newyddion
Pentref i Lanberis

Cysyllter â

Mrs Jane Roberts, Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch
neu unrhyw un o'r Golygyddion

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

MABOLGAMPAU – Cynhaliwyd y Mabolgampau a ohiriwyd wythnos y carnifal ym mis Gorffennaf oherwydd y tywydd garw brynhawn Sadwrn Medi 28. Enillwyr y cystadlaethau oedd:

Ras dan 5, bechgyn – 1 Huw Davies 2 Iestyn Smith 3 Gareth Jones; Ras dan 6, genethod – 1 Eluned Davies 2 Sarah Wager; Ras dan 7, Bechgyn – 1 Martin Parry 2 Tony Roberts 3 David Wager; Ras dan 7, genethod – 1 Sara Roberts 2 Donna Williams 3 Gwenan Roberts; Ras dan 9, bechgyn – 1 Darren Jones a Dafydd Williams 2 Arnold Hughes 3 Carwyn Humphries; Ras dan 9, genethod – 1 Catherine Williams 2 Cheryl Hughes 3 Elen Roberts; Ras dan 10 Bechgyn – 1 Michael W. Jones 2 Steven L. Jones 3 Irfon Jones; Ras dan 10 Genethod – 1 Nicola Houston 2 Debbie Jones; Ras dan 12 genethod – 1 Judith Jones 2 Rona Humphries 3 Tracy Roberts; Ras dan 12 bechgyn – 1 Cenwyn Humphries 2 David Foulkes; Ras dan 14, genethod – 1 Meinir Williams 2 Gillian Roberts 3 Carolyn Jones; Ras dan 14, bechgyn – 1 Tudor Roberts 2 Dewi Evans; Ras dan 16, genethod – 1 Christine Jones 2 Mandy Williams; Ras dan 16, bechgyn – 1 Gareth Jones 2 Geraint Elis 3 Andrew Williams; Ras Tair Coes 1 Meinir a Carolyn 2 Geraint a Christine; Ras Beic Araf – 1 Geraint Elis; Ras Berfa – 1 Gareth Jones a Geraint Elis; Ras Gyfnewid – 1 Meinir, Carolyn, Gareth a Geraint; Ras Merched dros 16 – 1 Carol Houston; Ras Dynion dros 16 – 1 Wil Davies; Ras mewn sach – A 1 Michael Jones; B 1 Meinir Williams; C 1 Elen Roberts; D 1 Michael Jones.

Enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mr Arfon Roberts, Gwynedd Sports, Caernarfon) gan Ruth Jones, Meillionen a Mark Roberts, Argraig. Dymuna pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth i lwyddiant y diwrnod.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i Miss Annie Parry, Craig y Don, sydd yn Ysbyty Gwynedd ar ôl damwain yn ei chartref.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned a Tony, Isfryn ar enedigaeth eu mab bach Arwyn, hefyd i Mr a Mrs Hubert Roberts, Bod Gwynedd am fod yn daid a nain am yr eilwaith.

Hefyd i Mrs Ella Morris, Hafan, am fod yn hen nain am y tro cyntaf. Ganed merch fach, Sarah Louise i'w hwyres Carol a'i phriod yn Wrecsam.

CLWB MAMAU A MERCHED IFANC – Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb nos Fercher Medi 4 yn y Ganolfan Gymdeithasol. Cafwyd noson ddifyr a diddorol iawn yng nghwmni Mr G. Roberts o Lanrug a roddodd sgwrs ar 'Cymorth Cyntaf'. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mrs Avril Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Jean Hughes a Mrs Hilda Orritt, hwy hefyd a roddodd wob y raffl a enillwyd gan Miss Meira Williams.

BEDYDD – Brynhawn Sul, Medi 29 gyda'r Rheithor, y Parch Aled J. Williams, yn gwasanaethu, bedyddiwyd Dawn Lianne, merch fach Susan ac Alan, Talgwynedd.

DIOLCHGARWCH – Cynhaliwyd gwasanaethaethau Diolchgarwch yn Eglwys Sant Gabriel ar y 6ed a'r 7fed o'r mis. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid fore Sul gan y Rheithor, y Parch Aled Jones Williams. Gwasanaeth y plant oedd am ddau o'r gloch, a'r organyddes oedd Miss Judith Ornitt. Am chwech o'r gloch cynhaliwyd gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parch Deiniol Carey Roberts, rheithor Llanllechid. Nos Lun cynhaliwyd gosber a'r pregethwr gwaddoedd Canon Elwyn Roberts, Glanogwen. Yr organyddes yn y gwasanaethau oedd Miss Ceridwen Hughes. Nos Fawrth, cynhaliwyd Ffair Cynhaeaf yn yr Ysgol Gymuned. Dymuna'r Warden ddiolch i bawb am y rhoddion o flodau, ffrwythau a llysiau i addurno'r Eglwys.



PRIODAS – Hydref 5 yn Eglwys Crist, Llandinorwig, gyda'r Deon Gwlad, y Parch Richard Jones yn gweinyddu, priodwyd Patricia Ann, merch Mrs M. Barlow, a'r diweddar James Barlow, o Ddeiniolen, â John Richard, mab Mr a Mrs W. Chick, Cwm y Glo. Yr organyddes oedd Mrs Gwen Griffith. Y gwas oedd Kelvin Fleming, a'r morynion Nicola a Bethan, a Christopher yn facwy. Mae'r pâr ifanc yn cartrefu ym Mae Colwyn.

Dymuna Pat a John ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthynt, ac am y dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

POBOL Y CWM – Cyfarfu aelodau y Clwb bnawn Sul, Hydref 3, a mwynhawyd sgwrs ddifyr gan Mr R. Roberts, Bryn Gro. Rhoddodd hanes ei wasanaeth fel gofalwr cledrau Cwmni Rheilffordd am bron i hanner cant o flynyddoedd. Cychwynodd ei yrfa hir yn Talacre a therfynu ei waith yn Llanberis. Rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes, Hyfrydle, a'r raffl gan Mrs R. Roberts, Bryn Gro.

Y Parch A. Jones Williams, BA, rheithor y plwyf, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod pnawn lau, Hydref 17. Cawsom hanes ei ymweliad â Rwsia yn ddiweddar, a dangosodd amryw o ddarluniau cardiau post o'r dinasoedd y bu yn ymweld â hwy, a'r adeiladau rhwysgfawr, hefyd copi o'r newyddiadur enwog 'Pravda'. Gwerthfawrogydd ei sgwrs

ddiddorol a diolchwyd iddo gan Mr H. Pritchard, Bryngwynedd. Rhoddwyd y te gan Mrs M. Williams, Elidir View a Miss Megan Davies, a'r raffl gan Mrs Williams, Pantafon a enillwyd gan Mrs G. Pritchard.

Cinio Nadolig i oedolion a phensiynwyr Cwm y Glo

Cynhelir Cinio Nadolig yn y Ganolfan, nos Iau Rhagfyr 19 am 6 yr hwyr, pryd y gwahoddir holl bensiynwyr ac oedolion y pentref. Byddaf yn ddiolchgar i bawb gysylltu â mi er mwyn gwybod y nifer sy'n bwriadu dod, ac os oes angen cludiant yn ôl a blaen i'r Ganolfan. Gyda diolch am eich cydweithrediad.

DRAENOG



Gwraig o'r Waunfawr ar fordaith yn y Môr Canoldir yn tynnu lluniau ei ffrindiau efo 'Remote Control' y teledu yn lle camera.



Brenhines Gwyneth a'i gosgordd yng ngharnifal Cwm y Glo, 1945.

Bistro

45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278
(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GWRAIG Tŷ YN YR ARDD

DYMA WYL DIOLCHGARWCH drosodd ac er inni gael cymaint o law drwy'r haf bron, y mae gennym lawer i ddiolch amdano, pe na bai ond am y blodau hardd ar waethaf y tywydd.

Dywedais yn llances i gyd wrth weinidog: "Edrychwch ar y blodau yma 'rydw i wedi eu tyfu."

"Na," meddai, "nid chi a'u tyfodd, eu hau nhw neu eu plannu wnaethoch chi." Yr ydym ni'n garddwyr yn rhy barod i ymffrostio yn ffrwyth ein llafur, ac anghofio'r gallu anweledig. Cawsom gyfle yn yr Wyl Ddiolchgarwch i ddatgan ein diolch, ac yn wir y mae gennym ni'r garddwyr fwy o achos diolch na neb.

A dyma hi'n fis Tachwedd - hen fis tywyll - y dydd yn bryhau a dywedodd ffrind wrthyf ryw ddiwrnod:

"Beth ar y ddaear ydach chi'n wneud yn yr hen ardd yma rwan? Mi gewch chi anwyd neu gricymalau." Mae'n rhyfedd fel mae pobol sydd ddim yn hoffi garddio yn rhoi'r bai am bob anhwylder ar yr 'hen ardd' na'. Ond y mae cymaint eisiau ei wneud, a chawn ambell ddiwrnod sych a heulog hyd yn oed ym mis Tachwedd.

Dyna'r gwaith tachuso. Y mae'r Ffarwel Haf (law bendigedig) drosodd. Dyna fynd ati i dorri'r blodau wedi marw a gan eu bod yn dueddol i fynd yn glwstwr trwchus, eu rhannu a'u hailblannu.

Mae rhai bylbiau heb eu rhoi i lawr eto - y tiwlipiau. Rwyf braidd ar ôl efo'r Cennin Pedr hefyd.

Y mae'r "Na'd fi'n angof" yn barod i'w plannu gydag ymyl border o Flodau'r Fagwyr ac y mae gen i un blodyn sydd yn blodeuo yr un adeg,

sef blodyn bach melyn sengl o'r enw 'Doronicum'.

Fe godaf y Blodau Mihangel cynnar (Chysanthemums neu Crys Martha fel y byddai rhyw hen arddwr gwreiddiol yn eu galw). Eu rhoi mewn potiau neu cofsys mewn ffrâm oer neu'r tŷ gwydr i sicrhau torion at y flwyddyn nesaf. Bydd y gŵr yn gweiddi arnaf "Cofiwch roi labeli arny'n nhw neu fyddwch chi ddim yn gwybod beth ydyn nhw yn y gwanwyn." Y mae'r rhai diweddar yn y tŷ gwydr ac yn codi calon un.

Beth am sôn am rywbeth i'w fwyta? Byddaf yn falch iawn o gael teisen riwbob gynnar a dyma'r amser i ddod â gwreiddyn i mewn i'r tŷ gwydr a rhoi gwellt drosto. Gellir ei roi mewn sied oer os nad oes dŷ gwydr.

Cred y gŵr mewn palu'n gynnar, ac y mae'n bwysig gwneud cymaint a all cyn y tywydd garw a gawn wedi'r Nadolig. Dywed mai fo sy'n gwneud y gwaith caled a minnau'n dweud sut!

DRAENOG



LŴ LLANRUG

Clywed fod cryn gwyno yn Llanrug am nad oes cyfleusterau cyhoeddus yn y pentref. Deall hefyd nad oes fawr o obaith eu cael os pery'r Toriaid mewn grym a'u cwtogi di-ben-draw ar wariant y cynghorau lleol. Ond mae ffordd o gael Wil i'w wely (neu Lŵ i Lanrug yn yr achos hwn!). Dim ond medru perswadio'r Dywysoges Diana i ymweld â'r lle; neu o leiaf, dyna'r si a ddaeth i'm clustiau oddi wrth gefnder pigog i mi o'r Almaen.

Mae'n ymddangos fod 500 (ie,

pum cant) o doiledau yn y Wavell Barracks, cartref dros-dro y 'Royal Hampshire Regiment' yng Ngorllewin yr Almaen. Erbyn i chwi ddarllen y pigion hyn, bydd un toiled arall yno hefyd; un sydd wedi costio £5,200 i Lywodraeth Militaraidd Prydeinig Berlin. Pum mil o bunnau am un toiled medda chi? Wel ia; ond mae'r waliau wedi eu papuro â phapur pinc, ac y mae'r handlan a'r peth dal papur sychu pen-ôl mewn brass. O ia; mae'r sêl fymryn yn uwch nag arfer hefyd, fel nad oes raid i'r pen-ôl pwysig ostwng yn rhy isel. A'r rheswm am yr holl wario? Mae'n ymddangos fod y Dywysoges Diana yn ymweld â'r Barracks am un pen-wythnos.

Diolch! Mi fydda pobl Llanrug yn fodlon rhoi i fyny efo walia' wedi'u gwyngalchu, a setu plastig du pe bai'r Dywysoges yn gwneud dim mwy na phiso - wps - pasio drwodd.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

TALWRN Y BEIRDD

GYDA'R gaeaf ar ein trothwy, daeth yn amser ail-afael yn yr Odliadur, gan fod 'beirdd' Llanrug yn cychwyn ar eu trydydd tymor ar Dalwrn y BBC. Ar nos lau, Hydref 3 roedd eu cystadleuaeth yng Ngwesty'r Foelas, Llanrug yn erbyn tîm Y Leinws, Môn (enw arall ar y tîm a'i leiniodd yn y ffeinal ddau dymor yn ôl!). Roedd siawns felly i dalu'r pwyth yn ôl, ond er bod dau fardd newydd (neu efallai oherwydd hynny!) yn nhîm Llanrug, colli fu eu hanes. Ond colli anrhydeddus er hynny, o 87 o farciau i 89. Y beirdd sy'n cynrychioli Llanrug y tymor hwn yw Tony Elliot, Len Jones, Twrog Jones, Iolo Hughes Roberts, John Roberts a Dafydd Whiteside Thomas. Dyma eu cynnyrch yn y rownd gyntaf:

Ateb llinell:

Un nos Lun mi wnes llinell
Helo Mawrth - mae'r ail ymhell.

Cwpled caeth:

Iro cur, cywiro cam
Byd dynion wnaeth Bod dinam.

Limrig:

Wrth ffonio Sid ni yn Awstralia
Y lloeren oedd ddigon c(wala)
Fel bwrmerang, nôl
Ddaeth fy llais o'r Sowth Pôl
Ac atebwyd y "call" yn nrws nesa.

Englyn: Hwlganiaeth:

Rhag cur, i gyffur mae'n gaeth - a'i nodwydd,

Balm ydyw rhag alaeth;
O'i siom daw surni fel saeth,
O'i gynni - hwlganiaeth.

Englyn: Bergen - Gwraig dda:

I fatras, gwres di-fatri - sythwch wŷr
Saith-a-chwech amdani;
Nwyd hon sydd dan garanti
I redeg - 'Efar Redi'.

Pennill telyn:

Sgwennu llihoedd at fy nghariad
Yn fy meiro roedd fy mwriad;
Ofer bod yn amleiriog
A hithau, Gwen, yn anillythrennog.

Pennill Dychan: Cynllunwyr Traffyrdd:

Mae'r rhain yn rhwydd gynllunio
Geometreg ddu y tar
I lansio at eu targed

Holl deiliaid chwyryn y car.
Perffeithir eu dyfeisiau
Pan welir Prydain Fawr
Yn sglein gan seirff o draffig

Yn symud dim-yr-awr:

A'u nefoedd - gweld modurwyr ffôl
Wrth fynd ymlaen yn mynd yn ôl.

Cywydd: Ymddiddan rhwng Arfon a Môn:

Môn:

Y mae oglau tîm Wigli
A'i nwy Fferodaidd i ni
Yn rhoi brec ar hyder bro
Goronwy, hyd at grino.

Arfon:

Och dy wae, Fôn, dirion dir,
O wadu hil dy frodir,
Oludog afal Eden,
Hwde Sais - baradwys hen.

Môn:

Hwde Arfon Oronwy,
Ni rydd Môn fri iddo mwy;
All the Best am bryddest braf..

Arfon:

Monwysion Amen ysaf.

Cân: Haws dweud na gwneud

Fe fûm a mawr obeithion
Gwneud marc ym myd enwogion;
Ond gwrandwch ar fy mhrofiad sur
A natur fy rhybuddion.

Mi redaf Ras yr Wyddfa
I ddangos pwy 'di'r gora'
Y cynta'i grug rhen Rhitta Gawr
A hedfan lawr o'r copa.

Ond bobol, roedd hi'n galad
I redeg ar y gwastad!
Heb sôn am ddringo'r llethrau serth
Fe aeth fy nerth mewn chwinciad.

Mi fyddai'n fardd cadeiriol
(Fy sgwrs sy'n gynganeddol)
Ac fe ddaw awdlau cain i fod
Bydd canu 'nglod dragwyddol.

Ond diawch, mi ges drafferthion
I nyddu cynganeddion;
A deud y gwir, bûm ar ddihun
Cyn llunio un yn burion.

Mi af i fyd caneuon
A'm llais yn swyno'r galon;
Fe fydd fy enw'n fawr ei barch
Ymhlith yr archangylion.

Ond och! Roedd disgord weithian
A'r gynulleidfa'n hisian;
A nodau clwyfus ddaeth o'm ceg,
Fy seineg droes yn sgrechian.

A dyna pam rwyf yma
Mewn Talwrn yn prydedda;
Gan fawr obeithio ennill pwynt -
Uchafbwynt fy holl dasga'.

Cwpled caeth - ar ffenestr ôl car.

Paid a'n gwatwar, Ferrari:
Ennyn heddd mae'n Mini ni.

Telyneg: Cwypmp.

O awyr y gyflafan
Daeth hanes ei blymio erch,
Fel seren wib fe'i colodd
Ar drothwy gwanwyn eu serch.

Wrth fodio'i dyddiaduron
Yn dyner, syrthiodd o un
Rhyw ias o'r gwanwyn hwnnw
Mewn deilen hydref o lun.



Cefnogwyr a beirdd Llanrug yn barod am yr ornest yn erbyn y Leinws. O'r chwith i'r dde:- Dafydd Whiteside Thomas, Tony Elliot, Len Jones, John Roberts, Iolo Hughes Roberts a Twrog Jones.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

CLWB GWYRFAL: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r tymor yn y Ganolfan ar Hydref 10 o dan lywyddiaeth y Rheithor y Parch B. Thomas. Tra'n croesawu'r aelodau, cydymdeimlodd â theulu Mrs Awstin Jones, aelod ffyddlon a fu farw ym mis Medi.

Roedd yn wraig ddiwylliedig gyda diddordeb arbennig mewn llenyddiaeth a hen draddodiadau Cymreig. Roedd wedi darlledu lawer gwaith ar Radio Cymru. Safodd yr aelodau mewn tawelwch fel teyrnged i'w choffadwriaeth a cafwyd gweddi fer gan y Rheithor.

Anfonwyd gair at Mrs Jones-Evans sydd yn Ysbyty Gwynedd ar ôl damwain yn ei chartref ac ailgroesawyd Mrs Mwynwen Jones ar ôl bod yn absennol oherwydd gwaelled.

Ein siaradwyr gwadd oedd y Canon R.D. Roberts a Mrs Roberts - gynt o Lwyngwril, ond erbyn hyn yn byw yn Llanfairpwll.

Cafwyd awr ddifur iawn yn eu cwmni. Amlinellodd y Canon Roberts darddiad cynnar Alawon Gwerin a baledau Cymreig a canodd Mrs Roberts lawer ohonynt i'w chyfeiliant ei hun ar delynt fach arbennig. Diolchwyd iddynt gan Mrs Miles. Hefyd i Mrs Jennifred Jones a Mrs Eluned Roberts am baratoi'r te. Enillwyd raffi - rhodd Mrs Nesfield - gan Mrs Southward.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhelir ail gyfarfod y tymor nos Lun Tachwedd 11 yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir darlith ar hanes 'Meddygon y Ddafad Wylt' gan y Parch Harri Parri, Caernarfon. Estynnir croeso i aelodau newydd ymuno â'r Gymdeithas ar gychwyn tymor arall.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf o Sefydliad y Merched yn Festri Croesywaun ar nos lau, Hydref 3, gyda Mrs Pat Parry yn llywyddu. Dymunodd Mrs Parry wellhad buan i Mrs Betty Griffith ar ôl triniaeth lawfeddygol. Cydymdeimlodd hefyd â Mrs C.A. Jones ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yng Nghaernarfon. Croesawodd y llywydd Mrs Parden, Cynant Farm fel ymwelydd i'r Sefydliad. Darllenwyd y llythyr misol a thynnwyd sylw'r aelodau at amryw o weithgareddau sydd i'w cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd Mrs C.A. Jones yn cynrychioli'r Sefydliad yng nghyngor yr Hyndref yn ysgol Aberconwy ar nos lau, Hydref 17. Croesawodd Mrs Pat Parry Mrs Glenys Williams, y llywydd sirol. Cafwyd arddangosiad coginio gan Mrs Williams yn defnyddio cynhwysion iachusol. Pwysleisiodd Mrs Williams y pwysigrwydd o fwyta bwydydd iachusol a thynnodd sylw'r aelodau ar yr arddangosfa sydd i'w cynnal yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon ar Hydref 30 - 'Curiad Calon'. Diolchwyd i Mrs Williams gan Mrs Buddug Rowlands. Rafflwyd y bwydydd a wnaeth Mrs Williams ac fe'u henillwyd gan Mrs Parry Williams, Mrs M. Morgan Jones, Mrs Overy, Mrs Morfa Evans, Mrs Buddug Rowlands, Mrs Mary Davies, Mrs K. Wynn Jones.

TEARCRAFT: Cynhaliwyd bore coffi i werthu nwyddau Tearcraft yn y Ganolfan ddydd Sadwrn Hydref 19. Cafwyd bore llwyddiannus iawn a gwerthwyd gwerth £205 o nwyddau. Mae Tearcraft yn is-gwmni i gronfa gymorth Tearfund. Mae'r cwmni'n marchnata cerfftwai a wneir gan bobl mewn gwledydd tlawd iawn, ac mae pob ceiniog o'r elw yn mynd i roi bywoliaeth iddyn nhw.

Roedd y dyddiad yn un anhwylyd i

lawer gan ei fod yn ddydd Sadwrn cynta hanner tymor, a llawer yn brysur neu'n mynd i ffwrdd. Ond diolch yn fawr i bawb a lwyddodd i ddod. Os oes rhywun nad oedd yn medru dod ar y diwrnod ond a hoffai gael golwg ar y crefftau y mae catalogau ar gael gan Mrs Sylvia Prys Jones, Penygraig.

YR URDD: Mae adran yr Urdd wedi aildddechrau gyda nosweithiau amrywiol i'r plant, eleni eto. Trefnwyd cwis ar eu cyfer ar y noson agoriadol, ac yna noson o gemau yr wythnos ddilynol. Daeth Duncan Brown i siarad ac i ddangos sleidiau o'r gwahanol 'deuluoedd' a geir ym myd natur, a daeth Dewi Lake, y trefnydd, i gynnal noson o ddawnsio gwerin. Mae'r plant hefyd wedi cael noson o chwaraeon yn y neuadd fawr gyda Dic Parry, Llanrug, a gyrfa chwilog wedi ei threfnu gan Gareth Jones.

Gobeithir cael rhaglen yr un mor ddifur ac amrywiol i'r aelodau ar ôl y gwyliau hanner tymor hefyd. Un ohonynt fydd noson Guto Ffowc. Bydd y noson yn dechrau am 6 o'r gloch yn y cae y tu ôl i'r cae pêl-droed, a bydd cwn poeth a chawl ar werth yn y Ganolfan, fel arfer, ar ddiwedd y tanio.

LLONGYFARCHIADAU: I Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed; ac i Mrs C. Pritchard, 6 Tref Eilian ar gyrraedd ei phen-blwydd hithau yn 80 oed.

I Valmai Williams, Cefn Coed ar ei phen-blwydd yn 21 oed.

I David Alan Owen, Cynorthwyr gydag Antur Waunfawr, ar ei briodas â Wendy Thomas o Gaernarfon.

I Linda Wyn Jones, Crud yr Awel, ar ei phriodas â Huw Alan Roberts o Borthmadog.

ADREF O'R YSBYTY: Bu Mrs Betty Griffiths, Gorphwysfa, Mr Emlyn Davies, Bodwyn, a Mrs K. Roberts, Derlwyn yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithiwn eu bônt yn parhau i wella ar ôl dychwelyd gartref.

EISTEDDFOD YR ARDAL: Ddydd Sadwrn, Tachwedd 9 yw diwrnod yr Eisteddfod yn y Ganolfan. Bydd y dyrau ar agor am 11.30 y bore, a chyfle am banded o 4.00 o'r gloch ymlaen. Diolch am bob addewid tuag at y 'caffi'. Nan Roberts, ysgrifenyddes y pwyllgor.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Medi: 1. Gareth Jones, Glyn Ceris, 2. Dafydd Iwan, Pen y Berth, 3. Hadn Jones, Rhandir Mwyn.

CRONFA'R GANOLFAN: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi: 1. £40, Gary Davies, 1 Gallt y Bont, 2. £25, Dr A.L. Miles, Trefeddyg, 3. £10, Mrs Southworth, Gwynant.

YN YR YSBYTY: Cafodd Mrs S. Jones Evans, Pennant ddamwain yn ei chartref yn ddiweddar a gorfu iddi gael triniaeth brys yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion gorau ati a'n dymuniadau gorau iddi yn y dyfodol.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr O.T. Jones, Bryn Gwenallt, ar golli brawd yng Nghaernarfon.

Â Mrs Richard Owen, Bro Waun, ar golli brawd, sef Mr John Griffiths, Wayside.

Ac â Mr Fred Jones, 6 Bryn Golau, ar golli chwaer.

DOSBARTH WEA: Mae peth newid yn nhrefniadau'r dosbarth am fis Tachwedd. Cynhelir y gyntaf o ddwy ddarlith gan Miss Nia Watkin Powell, Coleg y Brifysgol, Bangor ar hanes 'Tuduriaid Môn' nos Lun nesaf Tachwedd 4ydd a bydd yr ail ddarlith nos Lun Tachwedd 18. Mae nifer o'r pentrefwyr, yn eu mysg rai o'r bobl ifanc, wedi bod yn holi tybed a oes modd cynnal dosbarth ar "Ffotograffi" yn ystod y flwyddyn newydd. Dosbarth i ddysgwyr fyddai hwn i bob diben. Os ceir ymateb ffafriol, eit ati i drefnu dosbarth - os oes gennych ddiddordeb a fyddwch cystal â chysylltu â Rol Williams, Ardwyn os gwelir yn dda.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCH: Dymuna Bethan Pennant Jones, Erw Gain, 15 Y Stâd Eryri ddiolch o galon i bawb a anfonodd gardiau ac anrhegion ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Helen a Tony, 53 Tŷ Rhos, Gaerwen ddiolch yn fawr i bawb am y llu cardiaid anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU: I Rhys Williams, Llain yr Ardd ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed ar Hydref 16. Dymuniadau gorau i Eurwen Williams, Penlon fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 19 Tachwedd.

Dymuniadau gorau i Harry Owen, Bron Meillion fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Dachwedd 20.

NOSON GOFFI: Cynhaliwyd noson goffi yn y Neuadd wedi ei drefnu gan rai o enethod ifainc y pentref. Gyda'r elw o £75 fe brynir cyfrifiadur i Ysgol Pendalar.

Llongyfarchiadau a diolch i'r trefnwyr am eu hymdrech.

CARNIFAL 1985: Galwyd Pwyllgor nos lau Hydref 3 i dderbyn adroddiad y trysorydd, Mr Ieuan Williams. Gwnaethpwyd elw sylweddol eleni, ac fe benderfynwyd cadw rhan ar gyfer Carnifal 1986 a rhannu £225 i'r mudiadau canlynol: Neuadd y Pentref: £80; Eisteddfod: £50; Capel Bethel: £10; Clwb Snwcer: £20; Clwb Ieuenctid: £20; Ysgol Feithrin: £15; Mama'i phlentyn: £15; Yr Urdd: £15.

Y GYMDEITHAS: Nos Fawrth, Hydref 29 agorwyd tymor y Gymdeithas gyda noson yng nghwmni Parti Seiriol. Trefnwyd rhaglen amrywiol am y gaeaf ac estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd.

DIOLCHGARWCH: Ddydd Llun, Hydref 21 cynhaliwyd gŵyl Ddiolchgarwch yng Nghapel Cysegr. Cafwyd cyfarfodydd graenus iawn gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y bore, yr ieuencid yn y prynhawn a chyfarfod gweddi yn yr hwyr. Wedi'r oedfaon rhoddwyd y ffrwythau a'r llysiau a roddwyd gan y plant i bensiynwyr yr eglwys.

YR URDD: Mae'r Urdd wedi cychwyn y tymor newydd yn llewyrchus iawn gyda chriw ardderchog yn dod i'r cyfarfodydd. Trefnir i fynd i weld y pantomeim yn Theatr Gwynedd ddechrau'r flwyddyn a bydd manylion pellach yn rhifyn nesa'r Eco.

ORDEINIO: Nos lau, Tachwedd 21 am 7 o'r gloch yng Nghapel Bethel cynhelir oedfa ordeinio Mr Harold Parry-Jones, Penygroes. Cymerir rhan yn yr oedfa gan y Parchedig Gwilym Parry gyda'r Dr Tudur Jones, Bangor yn pregethu.

Mae Mr Harold Parry Jones, sy'n aelod ym Methel wedi gwasanaethu fel pregethwr llewyg ers blynyddoedd a dymunir pob bendith iddo wrth gymryd y cam newydd pwysig yma yn ei fywyd.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r Gwasanaeth.

DYMUNIADAU GORAU: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Siân Morgan, Llwyn Bedw ac Alan Williams, 81 Y Wern, Y Felinheli ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn, Hydref 12. Bydd y ddau yn cartrefu yn 1 Gwastadnant, Nant Peris.

DIOLCH: Dymuna Siân ac Alan, 1 Gwastadnant, Nant Peris ddiolch o galon am y llu anrhegion, cardiaid a dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu priodas.



Eirian Hughes, Ysgoldy a ddaeth yn ail allan o dros ugain o gystadleuwyr yng nghystadleuaeth gweinyddesau gorau yng Ngharnifal Nefyn.

PLYGU'R ECO
Plygir rhifyn Rhagfyr o'r Eco yn Neuadd Goffa Bethel, nos lau, Tachwedd 28 am 6 o'r gloch. Dewch i helpu, os gelwch yn dda.

MERCHED Y WAWR - Yng nghyfarfod mis Hydref, cafwyd noson addysgiadol a diddorol iawn yng nghwmni Mr Maldwyn Thomas, Bangor, a roddodd sgwrs ar bapurau Caernarfon a'r cylch o'u cychwyniad.

Diolchwyd iddo gan Mrs Alys Jones, Eryri. Enillwyd y raffl gan Mrs Mair Jones, Glan Gors.

Llongyfarchwyd Mrs Mair Jones, Glan Gors, ar briodas ei merch Helen. Dymunwyd y gorau i Carwyn John, mab Mrs Lynnwen Morris a oedd wedi bod yn yr ysbyty, ac i Mrs Gwyneth Jones, Llain-yr-Ardd a oedd yn mynd i'r ysbyty i gael triniaeth lawfeddygol.

Dymunwyd â Mrs M. Davies y Ddôl ar golli ei brawd.

Darparwyd y lluniaeth gan Mrs Meinir Roberts, Gwynfryn, Mrs Mary Evans a Mrs Beti Owen, Tan-y-Cae.

Bydd y cinio Nadolig ym Mhlas Menai ar Ragfyr 11eg a gofynnir i'r aelodau sydd am ddod, roi eu henwau ac arian i Mrs Lynnwen Morris yn y cyfarfod nesaf. Pris £6.50 yn cynnwys.

Cynhelir y cyfarfod nesaf, nos Fercher Tachwedd 13, pryd y bydd Mrs Heather Ann Jones, Llanberis yn dangos sut i addurno teisennau Nadolig.

CLWB Y MAMAU - Bwriedir eleni wneud Parti Nadolig i oedolion y pentref a'r cylch, yn lle rhoi parseli. Bydd y parti yn Festri Capel Bethel nos Fercher, Rhagfyr 4 am 6.30. Mae croeso i bawb ac fe drefnir adloniant, a phryd o fwyd gwerth ei gael.

Os oes rhywun eisiau cludiant, cysylltwch â Mrs Nan Owen, Saron (670763), Mrs Sheila Lambrecht, Bro Rhos (670512), Mrs Lorna Jones, Stad Eryri (670667), mor fuan ag sydd bosibl.

Ffiniau'r Gorffennol

HEN EWYLLYSIAU

FEL HYN y cefais ddefnydd ar gyfer y golofn hon y mis hwn.

Yr oeddwn yn gwasanaethu yn ddiweddar yng Nghapel Horeb Penygroes ac yn cael cinio gyda Mrs Hughes, 53 Stryd Fawr, Penygroes. Meddai Mrs Hughes, "Mae gennyf hen rifynnau o Gylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru (WEA) am 1948, fuasech chi yn lecio eu cael?" Atebais ar fy union, "Buaswn wir a diolch yn fawr i chi, Mrs Hughes!" Derbyniais bedwar rhifyn yn llawen.

Y maent yn cynnwys gwybodaeth amrywiol, gwerthfawr dros ben. Er enghraifft, y mae'r diweddar Bob Owen, Croesor, wedi rhoi penodau o hanes hen ewyllysiau, rhai yn hen iawn hefyd. Dyma bigion o hanes yr hen ewyllysiau i chwithau gael eu mwynhau. Geiriau Bob Owen yw'r cwbl cofiwch!

Ebrill 1585. Robert Davies, Yr Wyddgrug, a gymynnodd i'w nai, "bob rhyw fainc, seti, lleoedd penlinio, a chladdu a feddaf yn eglwys y plwyf, Wyddgrug."

Ewyllys Edward Gruffydd ab Ieuan, Llewenni, Ger Dinbych tua'r un cyfnod. "Yr wyf yn erchi i'm corff gael ei lapio mewn cadachau lliain, ac i'w ddodi yn y ddaear heb ddim gorchudd namyn y pridd... ac i roddi habed o wenith mesur Dinbych i bob morwyn a gwas sydd yn fy nhŷ ar adeg fy marw."

Mewn ewyllys a wnaed yn 1747 gan ŵr o Abermaw ceir enwau ar longau'r lle, megis, "Mynegi" a "Nawlen".

Mewn ewyllys un o Aberffraw, a wnaed yn 1768 ceir cyfeiriad at "Cwt Ystyfflog", "Bwrdd Tâl", "Gwnbedd i ddal y bôr", "Cwprdd Tair Darn", "2 Wasc", "Tresel Lestri," a "Lestri Tân."

"Canfûm ddegau o ewyllysiau yn rhoddi Elusennau i dlodion y plwyf, mewn rhyw bedair mil o ewyllysiau a gopïais, na wyddai neb ddim byd am danynt, yr adeg y bu'r comisiynwyr yn chwilio i mewn i elusennau gwahanol blwyfi yn Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd. Dyma enghraifft:

1732. Robert Owen y Teiliwr o Drawsffynydd, £60, y llog i'w defnyddio i helpu deuddeg o dlodion y Plwyf Trawsfynydd dros byth. £40 i wardeiniaid Ffestiniog a Maentwrog i wyth o dlodion y ddau blwyf.

1696. Rhydd ewyllys Randle Davies, ficer Meifod, Sir Drefaldwyn a wnaed yn 1696 lawer iawn o oleuni ar ddylanwad y Crynwyr a'r Ymneilltuwyr, ac fel y dirmygodd ei ddwy ferch yn ei ewyllys. "Os bydd fy merch Prudence yn mynnu priodi y gof Joseph Davies chaiff hi ddim ond swllt ar fy ol." Mynnu priodi Joseph Davies wnaeth Prudence a chael dim ond swllt ar ol ei thad. Chwarae teg

iddi. Daeth yn un o wragedd ragorol y crynwyr (meddai Bob Owen).

1564. Mae Ewyllys Hugh ap John Goch o Dregynon yn darllen ac wedi ei sgrifennu fel hyn, "Yn enw Duw Amen. Y pedweridd dudd ar hugain o vis hydre oedran yr Arglwydd mil a hanner a phedwar a thrigain i rwyf i Hugh ap John Goch plwyfol yn vynho am dyall er bod vnygorff yn glaf yn gwneuthur vy llythyr Kymun." etc.

1672. Yr oedd gan Forris Griffith, o Faentwrog 13 o blant a chafodd pob un y swm cyfartal o 12 ceiniog yr un.

Profwyd ewyllys Hugh Jones o'r Ddôl Corwen 240 mlynedd yn ôl a chymerai 1,200 tudalen ffwlsgap teipiedig i'w chyflenwi yn null yr oes hon. Yr oedd yn faich i'w chario.

Yr oedd pob cymynydd bron yn awyddus i enwau ei blant a'i wryon ymddangos yn yr ewyllys, a rhoddid swllt ar eu cyfer: neu oen i hwn, gafr i'r llall, padell ffrio i un arall, a'r gist i'r llall: ac wrth gwrs i Sioned neu Fari "pais goch". Prawf yr ewyllysiau fod dillad gŵr neu'r wraig yn cael eu cadw yn "heirlooms" am genedlaethau: rhaid eu bod o stwff a lliwiau gwytnach nag y maent heddiw, meddai Bob Owen.

Yr oedd ewyllys Griffith Owen, Eisteddfa Cricieth yn llawysgrif Ellis Annwyl, Rheithor Cricieth, y llawysgrif odidocaf y bûm i'n sylwi arni erioed. Dyna farn Bob Owen.

LLYTHYR O LOEGR

Fel hyn y mae'r llythyr a dderbyniais yn ddiweddar yn darllen:

43 Hangar Road

Yadley

Hants RG26 6QQ

1 Hydref 1985

Annwyl Mary Lloyd Williams,

Credaf mai merch Glan Rhyddallt ydych chi ynte? Hwyrach na welais

ef erioed. Byddai fy nhad yn trin y "pethe" gydag ef yn Hafod Owen, ac 'rwyf yn cofio'r gwpled yma o'i waith:

"Rho bwt o le i'r botel inc A pharchus le i gopi."

Beth ddywedai Glan Rhyddallt am biro tybed?

Yr wyf newydd fod yn ddarlenn eich colofn yn Eco'r Wyddfa ac yr oeddech yn sôn am yr hen benillion Bys Meri Ann — diddorol dros ben. Fel hyn y clywais i'r ail bennill.

Mae bys Meri Ann wedi gwella A Dafydd y gwas yn ei fedd, Mae'r baban yn y crud wedi prifio A'r gath yn huno mewn hedd.

Emyn timau Rygbi Llanelli (sosban town) ydi'r hen gân. Clywais aml i drosiad cellweirus ac agos i'r asgwrn fel llawer iemyn arall gwaetha'r modd.

Y mae llawer o'r Saeson uniaith yn medru canu'r gân yn ogystal ag unrhyw Gymro. Tybed mai "scrapo" Johnnie Bach wnaeth y gath?

Bydded llawenydd i bawb.

Yr eiddoch,

Jack Roberts

(gynt o Lanberis)

Cyrhaeddodd y llythyr i mi yn ddiogel er nad oes cyfeiriad arno. Diolch yn fawr iawn i Jack Roberts. Ie, merch Glan Rhyddallt ydwyf. Dyma fy nghyfeiriad:

Llys Awen

Llanrug

Caernarfon

Gwynedd LL55 4BA

YR HEN ADFAIL

Gwanhau mae'r trawstiau trosto — a'u rhuddin

Yn graddol edwino,

Mae ei lawr yn malurio,

A cheir twll yn llechau'r to.

Llechau'r to'n ddigymonedd — a'r hen gorn

Mirain gynt yn garnedd,

Ond os aeth yn waeth ei wedd,

Gwiw unwaith fu'r wag annedd.

Lewis Owen Griffiths,

O 'Lleufer' Gaeaf 1948

TAN-Y-COED

Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Ian Lewis, 7 Rhos Rhug a Miss Nicola Pauline Lyon, Preswylfa, Glanrhyd, Llanwnda ar eu priodas a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Priodwyd hwy yn Eglwys Sant Gwynhaf, Dinas, Llanwnda.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Iola Butler, Haddefar ennill y wobr gyntaf ar ysgrifennu Limeric, a'r drydedd wobr am ysgrifennu Stori Fer Ddigrî yn Eisteddfod Llanrug. Yn yr un eisteddfod enillodd Mr Robert Williams, Llain Gwta y wobr gyntaf am ysgrifennu Stori Fer Ddigrî.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i blant yr ardal fu'n llwyddiannus yng ngwahanol adrannau o'r eisteddfod.

Pnawn Sul, Hydref 20 yn Nhan-coed cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant; y gweinidog, y Parch John Morris drefnodd y gwasanaeth a rhoi'r anerchiad. Arweinydd y gân oedd Mr Robert Williams, a'r cyfeilyddion oedd Miss Enid Roberts a Miss Manon Llwyd Evans.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Bethan Lewis Parry, Wendy Wavell Roberts, Alwena Roberts, Lona Roberts, Ffion Williams, Annwen Parry, Sian W. Jones, Amlyn Llwyd Evans, Wyn Parry, John Elwyn Jones, Cenwyn Humphreys, Aled Parry, Mark Wyn Jones, Tudor Wyn Jones, Rona Humphreys, Jonathan Prys Williams, Tom. M. Reagan,

Steven Prys Williams, Carwyn Humphreys a Justine Sarah Williams.

Bore Llun Diolchgarwch cafwyd Cyfarfod Gweddî yn Nhan-y-coed a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Mrs Megan Williams, Mrs Katie Roberts, y Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts a Miss Enid Roberts yn cyfeilio.

Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch Trefor Jones, Engedi. Y cyfeilydd oedd Mrs Violet Blanchard.

Cydymdeimlwn â Mr Gareth Lloyd Jones, Gilfach, ei briod Mrs Enid Lloyd Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam Mr Gareth Lloyd Jones yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i Mrs Pitts, Caerweddus, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Croeso adre i Mrs Margaret Pritchard, wedi cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd. Ein dymuniadau gorau iddi hithau.

Da gweld Mr John Humphreys, Caermaen wedi gwella ar ôl yr anhwylder a gafodd yn ddiwedd — ein dymuniadau da iddo yntau.

Balch ydym o ddeall fod Fernando Perez, mab yng nghyfraith Mrs Iola Butler wedi derbyn newyddion da o Mecsico fod ei deulu i gyd yn fyw ac yn iach ar ôl y daeargryn.

Cinio Blynnyddol y Pensiynwyr — gweler newyddion Llanrug.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202


TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

J.M. JONES A'I FAB GWAITH CERRIG BEDDAU A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS:

1. Cyfarch y gath mewn gwaith cerddorol? (4)
- 7 a 1 i lawr. Cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1986 (6,5)
8. Lle gwag mewn wy brown (4)
10. Gwniad wedi colli ei ben yw'r rhif (3)
11. Dymuniad wrth godi'r bys bach (5,2)
12. Davies, y gôl-geidwad (3)
13. Largo wedi drysu efo'r gwynt (5)
17. Llyffetheirio (5)
19. 'Drycha (3)
21. Nid Bella sy'n methu gweld! (7)
22. "Myn Duw, mi wn y ..." (Dafydd Iwan) (3)
23. Nawr (4)
25. Ceisio (6)
26. Daw'r gronyn lleiaf i'n cyfarfod (4)

I LAWR:

1. Gw. 7 ar draws

2. Seren ... (3)
3. O gyrraedd (2,4)
4. Crefyddau (7)
5. Yn perthyn i sect o 4 uchod (7)
6. Bys nith wedi drysu: yn union (3,3)
9. Cyfrif, heb y treigladd (4)
14. Marchogion (7)
15. Pob copa ... (7)
16. Tensiwn (6)
17. "... brifardd, gweiniwyd llafn y cledd" (6)
18. Melyngoch (4)
20. Perffaith, dyna yw Mandi (5)
24. Rhag cywilydd! (3)

Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.
Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobr i'r sawl sy'n anfon y cynnig cywir cyntaf i'w dynnu o'r het.

DYDDIADUR TACHWEDD

1 Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed
YR ARDAL - Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30 yng nghwmni Mr Alwyn Evans, Caernarfon.
BETHEL - Noson Sbri Calan Gaeaf i blant y pentref yn y Neuadd am 6.30.
PENISARWAUN - Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
2 Sadwrn - BETHEL - Eisteddfod
4 Llun - WAUNFAWR - Dosbarth WEA yn yr ysgol leol am 7.00. Darlith gan Miss Nia Watkin Powell ar 'Tuduriaid Môn'.
YR ARDAL - Theatr Bara Caws yn perfformio 'Paradwys Ffŵl' yn neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30.
DEINIOLLEN - Sefydliad y Merched - Noson o Ddawnsio Gwerin gyda Mrs Maud Williams, Caernarfon.
LLANBERIS - Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30.
5 Mawrth - DEINIOLLEN - Clwb Elidir.
WAUNFAWR - Noson Guto Ffowc yr Urdd am 6.00.
PENISARWAUN - Noson Guto Ffowc gyda than gwyllt yng nghae'r pentref am 6.30.
6 Mercher - CWM Y GLO - Clwb a Mamau a Merched Ifanc
PENISARWAUN - Yr Urdd - Fideo Superted
7 Iau - WAUNFAWR - Clwb Gwryfai, Sefydliad y Merched
8 Gwener - LLANRUG - Cymdeithas Chwirydd Pontrhyallt yn cynnal noson o 'Arwerthiant a Phaned'.
9 Sadwrn - WAUNFAWR - EISTEDDFOD YR ARDAL yn y Ganolfan
11 Llun - WAUNFAWR - Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 - Darlith gan y Parch Harri Parri, Caernarfon ar hanes 'Meddygon y Ddafad Wyllt'.
12 Mawrth - LLANRUG - Merched y

Wawr - Sgwrs am 'Longau a Llongwyr' gan Mr Aled Eames.
BETHEL - Y Gymdeithas Lenyddol.
13 Mercher - DEINIOLLEN - Cangen Plaid Cymru - Noson o Gawl a Chân yn y Ganolfan am 7.00.
PENISARWAUN - Yr Urdd
BETHEL - Merched y Wawr - sgwrs gan Mrs Heather Jones.
CWM Y GLO - Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
15 Gwener - LLANBERIS - Te yr Henoed
PENISARWAUN - Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
18 Llun - WAUNFAWR - Dosbarth WEA yn yr Ysgol leol am 7.00. Ail ddarlith Miss Nia Watkin Powell ar hanes 'Tuduriaid Môn'.
LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30
19 Mawrth - PENISARWAUN - Clwb yr Heulwen - sgwrs gan Mr John Williams, Deiniolen
20 Mercher - YR ARDAL - Cymdeithas Hanes Bro'r Eco yn y Ganolfan, Deiniolen am 7.30. Cwis a sleidiau 'Pwy sy'n adnabod Cymru' gyda Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.
PENISARWAUN - Yr Urdd - Noson o Ddawnsio Gwerin.
21 Iau - WAUNFAWR - Clwb Gwryfai.
22 Gwener - LLANBERIS - Ffair Gaeaf Clwb yr Henoed.
PENISARWAUN - 'Noson i'r Genod' - Bwffe yng Nghlwb Eryri am 8.00. Yr elw er budd y Neuadd Bentrif.
26 Mawrth - BETHEL - Y Gymdeithas Lenyddol.
27 Mercher - PENISARWAUN - Adran yr Urdd.
CWM Y GLO - Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned am 7.30.
28 Iau - LLANBERIS - Sefydliad y Merched

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

AM DDEWIS HAEL A GWASANAETH CYFEILLGAR DEWCH I

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO




Padarn Lake Hotel

Perchnogion Terry a Val Skilki

STRYD FAWR LLANBERIS

870260

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

Dau dîm o'r ardal sydd yn Adran A y tymor hwn, a'r ddau wedi cael dechrau da i'w tymor, gan ennill pob un o'i gemau ond un hyd yn hyn. Mae gobaith felly o weld enwau Gleision Llanrug a Duon Deiniolen ar dlws neu ddau cyn diwedd y tymor!

Yn Adran B, mae Cochion Llanrug yn anorchfygol hyd yma, ac wedi ennill chwe gêm allan o wyth a dod yn gyfartal yn y lleill. Mae Gleision Deiniolen hefyd wedi cael dechrau pur dda, ac wedi colli un gêm yn unig. Gweddol yw record y timau eraill fel y gellir gweld o'r tablau isod.

Y GYNGHRAIR

ADRAN A

	Ch	Ennill	Cyf	Colli	O bl	Yn er	+/-	Pt
Gleision Llanrug	8	7	-	1	33	15	+18	14
Duon Deiniolen	6	5	-	1	25	11	+14	10
ADRAN B								
Cochion Llanrug	8	6	2	-	35	13	+22	14
Gleision Deiniolen	8	4	3	1	27	21	+6	11
Llanberis Cochion	8	4	1	3	28	20	+8	9
Deiniolen Duon	8	4	-	4	25	23	+2	8
Bethel Gleision	7	3	1	3	22	20	+2	7
Bethel	7	2	2	3	19	23	-4	6

Canlyniadau Mis Hydref:

Adran A

GLEISION LLANRUG

4.2 Duon Groeslon
4.2 Llafur Llangefni
6.0 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)
4.2 Gleision Porthaethwy
2.4 Crosville Caernarfon (Gleision)
4.2 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)
DUON DEINIOLEN
5.1 Gleision Marbryn
5.1 Ceidwadwyr Bangor (Duon)
4.2 Duon Groeslon
5.1 Llafur Llangefni
1.5 Duon Nantlle

Adran B

COCHION LLANRUG

4.2 Cochion Groeslon
4.2 Cochion Deiniolen
6.0 Duon Llanfairpwll
3.3 Gleision Bethel
4.2 Duon Bethesda
3.3 Llanberis
GLEISION DEINIOLEN
4.2 Cochion Marbryn
3.3 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
3.3 Cochion Groeslon
2.4 Cochion Deiniolen

4.2 Gwyrdd Nantlle

LLANBERIS

2.4 Duon Bethesda
5.1 Nantlle Brown
4.2 Cochion Marbryn
2.4 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
5.1 Cochion Groeslon
3.3 Cochion Llanrug
COCHION DEINIOLEN
2.4 Cochion Llanrug
2.4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
6.0 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
4.2 Gleision Deiniolen
4.2 Nantlle Brown
GLEISION BETHEL
4.2 Duon Bethel
2.4 Cochion Bethesda
3.3 Cochion Llanrug
2.4 Clwb Cymdeithas Bangor (Gleision)
1.5 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
DUON BETHEL
5.1 Duon Llanfairpwll
2.4 Gleision Bethel
4.2 Duon Bethesda
1.5 Nantlle Brown
3.3 Cochion Marbryn
5.1 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

Daeth tymor arall i ben, gyda'r bythefnos ddiwethaf yn ein hatgoffa o beth yw tywydd braf, ac wrth gwrw nid yw hynny yn ddelfrydol i bysgotwyr, ond mae llawer wedi cwyno oherwydd y tywydd gwlyb drwy Awst a Medi. Fy hun, dwn i ddim prun o'r ddau i'w feio.

Ond wedi'r cwbl, doedd y tymor ar gyfartaledd ddim yn rhy ofnadwy, gan fod rhai wedi bod yn llwyddiannus. Dangosodd y rhain i rai na does dim pysgod i'w gael wrth aros adref a chwyno. Yr unig le i fod oedd ar lan yr afon. Dyna lle bu Emyr Owen, Deiniolen, sydd wedi cael deg eog, y mwyaf yn 15 pwys. Rhai eraill i gael y gloyw i'r lan yw G. Pape, Caernarfon, tri - gorau 9 pwys; N. Dooley, Caernarfon - un 10 pwys, a gwyniedyn 11 a chwarter pwys, o Lyn Sewerage, Crawia. Dyma'r gwyniedyn gorau o'r afon ers amser. M. Harris, Felinheli, pedwar - y gorau 15 pwys; G. Morris, Llanrug - un 6 pwys; W. Parry, Bethel - un 5 pwys; y brodyr D. ac A. Dooley, gynt o Gaeathro, yn awr o Gaerloyw - un yr un - 11 a 6 pwys; John Griffith, Caernarfon - un 6 pwys; T. Christy, Maes y Dre - tri, gorau 9 pwys; H. Jones, Maes y Dre - un am 7 pwys; K. Hughes, Caernarfon - un 7 pwys a

minnau ddau am 8 bwys yr un.

Ar y Llyfni, roedd y gwyniadau yn cael eu dal yn rheolaidd gan ymwelwyr cyson i'r afon, sef Marc Bell o Ffrainc a gafodd wythnos eithriadol, ac ar un noson, cafodd ddeg tua phwys a hanner yr un.

Ni fydd cyfanswm yr afonydd i gyd i law tan y Pwyllgor Blyneddol a gynhelir yn yr Institiwt, Caernarfon am 7 o'r gloch nos Iau, Rhagfyr 12, 1985. Gwnewch bob ymdrech i ddod gan y bydd dyfodol ein pysgodfeydd yn cael ei drafod.

H.P. HUGHES

Beic Raleigh Grifter mewn cyflwr ardderchog. £40. Caernarfon 3577

Beic Raleigh Small Rider mewn cyflwr da. Hefyd Soffa 3 sedd frown. Caernarfon 5606

PÊL-DROED YN GRYNO

Dechrau digon simsan a fu i'r tymor i'r tri thîm o'r ardal, a'r un ohonynt yn addo buddugoliaethau mawr erbyn diwedd y tymor. Yn y Gynghrair, mae Llanberis a Llanrug yn weddol agos i'w gilydd yn hanner uchaf y tabl, a Bethel yn hofran tua'r canol. Mae tîm Mountain Rangers ar hyn o bryd yn carlamu ar y blaen i bawb arall. Er hynny, mae'n ymddangos fod y gystadleuaeth yn dipyn fwy clôs nag arfer rhwng y timau ar y brig nag yn y blyneddodd a fu, ac efallai y gwelir y diddordeb yn cael ei gadw yn y Gynghrair hyd gemau olaf y tymor.

Efallai mai yn y gemau cwpan y mae'r siawns gorau am fuddugoliaeth i un o dimau'r fro y tymor hwn. Yn ddiweddar, gwnaethpwyd y 'draw' am gystadlaethau cwpan y Gynghrair, ac y mae ambell un ohonynt yn ffafriol iawn.

Cwpan William Evans

Bontnewydd v Llanrug
Llanberis v Caernarfon Jun.
Bethel - drwodd i'r ail rownd heb chwarae.

Fe ddylai Llanrug a Llanberis ennill eu ffordd drwodd i gadw cwmni i Fethel yn eithaf rhwydd.

Cwpan Alves

Bethel v Coleg Prifysgol Bangor
Llanrug a Llanberis - drwodd i'r ail rownd heb chwarae.

Siawns da unwaith eto o weld Bethel yn ymuno â'r ddau arall yn yr ail rownd gan nad yw tîm y Brifysgol wedi ennill gêm hyd yma y tymor hwn.

Cwpan Moorings

Bethel v Llanrug
Llanberis - drwodd i'r ail rownd heb chwarae.

Felly bydd dau dîm o'r ardal yn yr ail rownd i sicrwydd! Felly bydd dau dîm o'r ardal yn yr ail rownd i sicrwydd!

TABL Y GYNGHRAIR

	Ch	E	Cyf	C	O Bl	Yn Erb	Pt
Llanberis	9	5	2	2	32	15	12
Llanrug	9	5	1	3	23	18	11
Bethel	10	2	2	6	18	30	6

Mae newidiadau ar droed yn Llanrug, gyda chynllun uchelgeisiol i godi ystafelloedd newid newydd. Mae Llanberis eisoes wedi newid eu henwau i Locomotive Llanberis. Mwy am hyn yn y rhifynnau nesaf.

MARATHON ERYRI

Record newydd i 'hen' redwr

Ddydd Sul, Hydref 27, cynhaliwyd Ras Farathon Eryri, yn cychwyn o Lyn Peris i fyny Bwlch Llanberis, i lawr yr allt serth i Nant Gwynant a Beddgelert, cyn dringo'n ôl heibio i Lyn y Gader a Llyn Cwellyn a chyrraedd y Waunfawr. Oddi yno roedd y dringo caled yn dechrau (ar ôl 20 milltir o redeg!!) - dros lethrau'r Cefn Du i Fwlch y Groes ac i lawr i bentref Llanberis.

Yn arwain y 470 o redwyr o'r cychwyn cyntaf roedd Mike Neary - enillydd ras y llynedd, a Jeff Norman - yr enillydd am y ddwy flynedd cyn hynny, ond a ddewisodd beidio â rhedeg y llynedd. Mike Neary dorrodd y record yn ras y llynedd, felly roedd y frwydr rhwng y ddau yn addo'n un ffyrnig. Erbyn cyrraedd y Waunfawr, roedd Jeff Norman wedi dangos pâr o sodlau i Neary, ac yn sicr o ennill. Dim ond y cloc oedd i'w guro bellach. Ond dros lethrau Bwlch y Groes, brwydro ei ffordd i record newydd, gan dorri bron i funud a hanner oddi ar yr hen un.

Malcolm Jones o Redwyr Eryri oedd yn bedwerydd - record arbennig o dda i'r rhedwr o Dremadog. Jean Robertson, aelod arall o Redwyr Eryri oedd enillydd y ras i ferched, gyda Ruth Parry yn drydydd.

Rhedwyr lleol eraill a fu'n chwysu am 26 milltir oedd Brian Jones, Cwmyglo, Dennis Carr, Llanberis a Carl Hasson o Frynrefail. Daeth Alan Jones yn ôl o Lundain ar ei bererindod flynyddol i gynrychioli Cwmyglo!

RASUS TRAWS-GWLAD

Yng Nghynghrair Glannau Dyfrdwy - a gynhelir ar y Sul cyntaf o bob mis o hyn hyd fis Mawrth nesaf, mae rhedwyr lleol wedi dechrau'n dda - yn enwedig yr ieuencid.

Yn y gystadleuaeth i rai dan 17 oed, mae Paul Grant, a Mathew Ward o Lanrug, ac Adrian Owen o'r Waunfawr yn rhedeg yn dda. Yn y rasis i blant iau, mae criw Llanberis - yn fechgyn a merched yn gwneud yn arbennig o dda. Cawn fanylion llawnach am eu llwyddiant yn ystod y rhifynnau nesaf.

(Parhad o'r dud. flaen)

i'r drydedd adran, oll wedi ei sicrhau drwy ei ymddangosiad rheolaidd yn rheng uchaf cystadlaethau dros y blyneddodd diwethaf. Mae'n sicr fod hyn yn adlewyrchiad o waith caled a diflino yr aelodau a gwaith hynod ei arweinydd,

Mr Frank Boylin, o Fae Colwyn. Pe bai angen cadarnhad o'i safon, sicrhodd y Seindorf y bedwaredd wobr yn ei chystadleuaeth olaf yn y 4edd adran bresennol yng nghystadleuaeth genedlaethol Pontins ym Mhrestatyn dydd Sadwrn, Hydref 26.